WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



# Adroddiad Gwella Blynyddol
## yn cynnwys Adroddiad Asesiad Corfforaethol 2013

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cyhoeddwyd: Mai 2014
Cyfeirnod y ddogfen: 232A2014

# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei dwyn i gyfrif gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Ar y cyd ag archwilwyr penodedig, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau o werth am arian yng nghyswllt llywodraeth leol ac yn asesu'r graddau y cydymffurfir â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Nod yr Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu adroddiadau cymesur, sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd, ynghylch y modd y caiff adnoddau cyhoeddus eu gwarchod, ac wrth wneud hynny, meithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliannau.

Paratowyd yr adroddiad hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Huw Lloyd Jones, Gwilym Bury, Melanie Watson (KPMG), Ian Pennington (KPMG), Tim Buckle, Paul Goodlad, Karen Lees, Andrew Doughton, John Roberts, Charlotte Owen, Emma Roberts a Debra Allen o dan gyfarwyddyd Alan Morris.

# Cynnwys


**Adroddiad cryno, argymhellion a chynigion ar gyfer gwella** 4

Mae'r Cyngor yn cael ei reoli a'i lywodraethu'n dda yn gyffredinol ac mae ganddo record o welliant cyson ond mae ganddo lawer i'w wneud i gyflawni'r arbedion angenrheidiol yn y dyfodol 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 7

Mae'r Cyngor yn cynnal ei record o gynnydd cyson mewn perthynas â'r rhan fwyaf o agweddau ar ei amcanion gwella 9

Mae'r Cyngor yn paratoi gwerthusiadau cytbwys, hyddysg o'i berfformiad a'i drefniadau llywodraethu ac mae'n rheoli risgiau'n systematig 21

Mae'r rhan fwyaf o agweddau ar lywodraethu a rheoli perfformiad ac adnoddau yn ategu cyfraniad y Cyngor at wella gwasanaethau ond mae'r hinsawdd ariannol lem yn her sylweddol 25

Mae'r Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15 42

**Atodiadau**

Atodiad 1
Statws yr adroddiad hwn 43

Atodiad 2
Gwybodaeth ddefnyddiol am Gonwy a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 44

Atodiad 3
Llythyr archwilio blynyddol 46

Atodiad 4
Amcanion gwella'r Cyngor a hunanasesiad 49

# Adroddiad cryno, argymhellion a chynigion ar gyfer gwella

## Mae'r Cyngor yn cael ei reoli a'i lywodraethu'n dda yn gyffredinol ac mae ganddo record o welliant cyson ond mae ganddo lawer i'w wneud i gyflawni'r arbedion angenrheidiol yn y dyfodol

1 Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad yn nodi pa mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau'r gwaith a wnaed gan staff Swyddfa Archwilio Cymru a KPMG ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, ac mae hefyd yn defnyddio gwaith arolygiaethau perthnasol Cymru. Mae'r adroddiad yn cwmpasu proses y Cyngor o ddarparu gwasanaethau, ei werthusiad o wasanaethau mewn perthynas â 2012-13, a chynllunio gwella ar gyfer 2013-14. Gan ystyried y rhain, mae'r adroddiad yn cofnodi casgliad yr Archwilydd Cyffredinol o ran a yw'n credu y bydd y Cyngor yn gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

2 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad bod y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15. Mae'r dyfarniad hwn yn adlewyrchu casgliadau ei asesiad corfforaethol, bod **y Cyngor yn cael ei reoli a'i lywodraethu'n dda yn gyffredinol ac mae record o welliant cyson er bod ganddo lawer i'w wneud i gyflawni'r arbedion effeithlonrwydd angenrheidiol yn y dyfodol.**

3 Canfu'r tîm archwilio fod y Cyngor, yn ystod 2012-13, wedi cynnal ei record o gynnydd cyson mewn perthynas â'r rhan fwyaf o agweddau ar ei amcanion gwella. Rydym hefyd wedi cyfeirio at gynnydd yn ystod 2013-14 mewn perthynas â rhai agweddau ar berfformiad y Cyngor. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae dangosyddion perfformiad cenedlaethol yn cyflwyno darlun boddhaol o berfformiad a gwelliannau yn ystod 2012-13;
- mae canlyniadau mewn ysgolion uwchradd yn cymharu'n dda ag ysgolion tebyg mewn rhannau eraill o Gymru ond mae'r system ysgolion cynradd yn ddrud ac nid yw'n perfformio cystal ag y dylai;
- mae gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth yn helpu i hyrwyddo Conwy fel cyrchfan i dwristiaid ac i gynorthwyo'r economi leol;

- mae'r Cyngor yn ymfalchïo mewn cynnal amgylchedd glân i ddinasyddion ac ymwelwyr ond mae cynnydd o ran lleihau allyriadau carbon a datblygu newid technolegol cynaliadwy wedi bod yn arafach;
- mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn adrodd ar newidiadau cadarnhaol, hyddysg yn y ddarpariaeth gwasanaethau cymdeithasol er bod meysydd i wella arnynt o hyd; ac
- mae Comisiynydd y Gymraeg wedi nodi arferion da o ran y ffordd y mae'r Cyngor yn gweithredu ei gynllun Iaith Gymraeg.

4 Yn ogystal, nodwyd bod y Cyngor yn paratoi gwerthusiadau cytbwys, hyddysg o'i berfformiad a'i drefniadau llywodraethu ac mae'n rheoli risgiau'n systematig. Nodwyd y canlynol gennym:

- yn gyffredinol, mae'r Cyngor yn defnyddio ystod eang o ddata yn dda er mwyn dadansoddi a gwerthuso ei berfformiad;
- cafodd gwerthusiad y Cyngor o'i berfformiad yn 2012-13 ei ategu gan adolygiad trylwyr o'i drefniadau llywodraethu ac roedd yn gytbwys ac yn hyddysg;
- ni fynegodd yr Archwilydd Penodedig unrhyw bryderon am agweddau ansoddol ar arferion cyfrifyddu a chyflwyno adroddiadau ariannol y Cyngor; ac
- mae'r trefniadau rheoli risg yn gynhwysfawr, yn systematig ac yn rhoi sicrwydd yr eir i'r afael â risgiau i berfformiad a llywodraethu.

5 Yn olaf, canfuwyd bod y rhan fwyaf o agweddau ar lywodraethu a rheoli perfformiad ac adnoddau yn ategu cyfraniad y Cyngor at wella gwasanaethau ond mae'r hinsawdd ariannol lem yn her sylweddol. Daethom i'r casgliadau canlynol:

- mae gan y Cyngor weledigaeth a fynegir yn glir sy'n seiliedig ar ddadansoddiad o angen ac fe'i hategir gan ethos tîm cryf ymhlith staff a chynghorwyr a rhyngddynt;
- mae rheolaeth gref dros berfformiad a rhaglenni yn sail i ymagwedd y Cyngor at reoli gwelliannau ond nid yw egwyddorion rheoli prosiect bob amser yn cael eu defnyddio'n gyson;
- mae diwylliant y Cyngor a'i drefniadau llywodraethu yn hyrwyddo ymagwedd gydsyniol ac effeithlon at wneud penderfyniadau, ond mae lle i gryfhau rhai agweddau ar y ffordd y mae pwyllgorau'n gweithredu;
- mae'r Cyngor wedi defnyddio ei adnoddau yn dda hyd yma ond mae'r hinsawdd ariannol lymach bellach yn galw am ymagwedd tymor hwy, gorfforaethol at gynllunio; ac
- mae gan y Cyngor ddealltwriaeth drylwyr o gostau a manteision ei waith partneriaeth ond mae rhai o'r trefniadau'n gymhleth i'r graddau eu bod yn ddi-fudd.

## Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella

6 Nid ydym wedi gwneud unrhyw argymhellion statudol yn ystod ein gwaith blaenorol y flwyddyn hon ac ni wnawn argymhellion o'r fath yn yr adroddiad hwn. O gofio'r ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu, byddai'n anarferol i ni beidio â dod o hyd i bethau y gellir gwella arnynt. Mae'r cynigion canlynol ar gyfer gwella yn deillio o'n gwaith asesu corfforaethol ym mis Tachwedd 2013.

| | |
|---|---|
| C1 | Dylai'r Cyngor weithio gyda'i ysgolion a chyda'r consortiwm gwella ysgolion rhanbarthol, GwE, i wella gwerth am arian y system ysgolion cynradd. |
| C2 | Wrth adrodd ar ei dargedau, dylai'r Cyngor esbonio'n gliriach y rheswm dros unrhyw leihad ymddangosiadol yn ei uchelgais. |
| C3 | Dylai'r Cyngor sicrhau:<br>• bod cofnodion y Cabinet yn cofnodi'r holl argymhellion craffu perthnasol;<br>• ei bod yn hawdd i bawb sy'n bresennol mewn cyfarfodydd wahaniaethu'n glir rhwng aelodau pwyllgor a'r cynghorwyr a swyddogion eraill; a<br>• bod pwyllgorau trosolwg a chraffu yn gynyddol yn dwyn deiliaid portffolio i gyfrif yn hytrach na swyddogion. |
| C4 | Dylai'r Pwyllgor Archwilio fod yn fwy systematig o ran sicrhau ei hun y gweithredir yn briodol ar argymhellion a wneir mewn archwiliadau mewnol ac allanol ac adroddiadau arolygu. |
| C5 | Dylai'r Cyngor, wrth gynllunio a chyflawni'r arbedion ariannol sylweddol sy'n angenrheidiol yn y blynyddoedd sydd i ddod sicrhau ei fod yn:<br>• datblygu cynlluniau ariannol tymor hwy sy'n caniatáu'n well ar gyfer amserlenni gweithredu rhaglenni trawsnewid uchelgeisiol;<br>• pennu mesurau a thargedau llwyddiant addas a phenodol mewn perthynas â rhaglenni trawsnewid y Cyngor; a<br>• sicrhau cyfraniad cyson a chydgysylltiedig gan y timau Adnoddau Dynol, TGCh a rheoli asedau i gynorthwyo'r gwaith o foderneiddio a thrawsnewid gwasanaethau. |
| C6 | Dylai'r Cyngor weithio gyda'i bartneriaid yn y Bwrdd Gwasanaeth Lleol i wella gallu'r Bwrdd i fonitro a rheoli ei berfformiad. |

# Adroddiad manwl

## Cyflwyniad

7 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Mae'r gwaith hwn wedi ei gynnal gan staff Swyddfa Archwilio Cymru a KPMG, ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Gyda chymorth gan arolygiaethau yng Nghymru, Estyn (ar gyfer addysg), Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a Chomisiynydd y Gymraeg, rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (y Cyngor) yn ceisio ei gyflawni, sut mae'n gwneud hynny, a'r cynnydd y mae wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei adroddiad gwella blynyddol diwethaf. Mae'r adroddiad hefyd yn seiliedig ar hunanasesiad y Cyngor ei hun. Yn olaf, gan ystyried hyn oll, daw'r adroddiad i gasgliad o ran pa un a yw'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn bod y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

8 Yn 2013-14, dechreuodd staff Swyddfa Archwilio Cymru ar gylch pedair blynedd o asesiadau corfforaethol o awdurdodau gwella yng Nghymru. Golyga hyn, yn ogystal â rhaglen flynyddol o astudiaethau gwella ac archwiliadau o ymagwedd cynghorau at gynllunio ar gyfer gwella ac adrodd ar hynny, bydd pob awdurdod yn cael asesiad corfforaethol manwl unwaith yn ystod cyfnod o bedair blynedd. Yn ystod y blynyddoedd dilynol, byddwn yn cadw golwg ar ddatblygiadau drwy'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd.

9 Cynhaliwyd yr asesiad corfforaethol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ystod mis Tachwedd 2013. Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn cynnwys yr Adroddiad Asesiad Corfforaethol, gan roi adolygiad mwy cynhwysfawr na'r arfer o drefniadau corfforaethol a llywodraethu'r Cyngor. Er nad yw'r asesiad corfforaethol yn ceisio darparu asesiad cynhwysfawr o berfformiad holl wasanaethau'r Cyngor, mae'n adrodd ar record y Cyngor o berfformiad a chanlyniadau yn ogystal â'r trefniadau allweddol sy'n angenrheidiol i fod yn sail i welliannau mewn gwasanaethau a swyddogaethau.

10 Canolbwyntiodd ein gwaith maes ar gyfer yr asesiad corfforaethol ar i ba raddau mae trefniadau'n cyfrannu at gyflawni gwell perfformiad gwasanaeth a chanlyniadau i ddinasyddion. Ceisiodd yr asesiad corfforaethol ateb y cwestiwn canlynol:

**'A yw'r Cyngor yn gallu cyflawni ei flaenoriaethau a'i ganlyniadau gwell i ddinasyddion?'**

11 Mae'r asesiad corfforaethol yn cwmpasu'r canlynol:

- **Perfformiad a chanlyniadau:**

  'A yw'r Cyngor yn gwneud cynnydd ar gyflawni ei welliannau a gynlluniwyd mewn perfformiad a chanlyniadau?'

- **Gweledigaeth a chyfeiriad strategol:**

  'A yw gweledigaeth y Cyngor a'i gyfeiriad strategol yn cefnogi gwelliannau?'

- **Llywodraethu ac atebolrwydd:**

  'A yw trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd y Cyngor yn cefnogi gwneud penderfyniadau cadarn ac effeithiol?'

- **Defnyddio Adnoddau:**

  'A yw'r Cyngor yn rheoli ei adnoddau'n effeithiol i gyflawni ei welliannau a gynlluniwyd o ran perfformiad a chanlyniadau?'

- **Cydweithio a phartneriaethau:**

  'A yw trefniadau cydweithio a phartneriaethau'r Cyngor yn gweithio'n effeithiol i gyflawni gwell perfformiad a chanlyniadau?'

- **Rheoli gwelliant:**

  'A yw'r Cyngor yn rheoli ei raglen wella yn effeithiol?'

12 Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ganfyddiadau ein hasesiad corfforaethol ac ar wybodaeth gronnol a chyffredin a chanfyddiadau'r gwaith wedi'i flaenoriaethu a gyflawnwyd eleni.

13 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- wneud cynigion ar gyfer gwella – os caiff cynigion eu gwneud i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion;
- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

14 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

# Mae'r Cyngor yn cynnal ei record o gynnydd cyson mewn perthynas â'r rhan fwyaf o agweddau ar ei amcanion gwella

15 Mae adran gyntaf yr adroddiad yn ystyried yr hyn mae'r Cyngor yn ceisio ei gyflawni, sut y mae'n mynd ati a'r cynnydd a wnaed ganddo ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei adroddiad gwella blynyddol diwethaf.

16 Pennodd y Cyngor wyth amcan gwella yn ei Gynllun Corfforaethol 2012-2017 (y Cynllun). Rydym wedi nodi'r rhain yn Atodiad 4. Yn ei Adroddiad Blynyddol yn edrych yn ôl ar 2012-13, blwyddyn gyntaf gweithredu'r Cynllun, mae'r Cyngor wedi cydnabod na chyflawnwyd pob targed ac mae wedi nodi meysydd i'w datblygu ymhellach sy'n ymwneud â phob amcan gwella. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi asesu ei gynnydd cyffredinol yn erbyn pob un o'r wyth amcan gwella fel cynnydd sy'n foddhaol o leiaf. Mae'n nodi iddo gyflawni neu'n gwneud cynnydd tuag at gyflawni 84 y cant o'r targedau a bennwyd ganddo ar gyfer 2012-13. Down i'r casgliad yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn bod hunanwerthusiad y Cyngor yn gytbwys a bod tystiolaeth briodol yn ei ategu'n dda.

17 Yn ystod yr asesiad corfforaethol ym mis Tachwedd 2013, buom yn edrych yn fanwl ar waith y Cyngor yn y meysydd a gwmpesir gan dri o'i amcanion gwella. Yr amcanion yr edrychwyd arnynt yn fanwl oedd y dylid sicrhau'r canlynol:

- mae pobl yng Nghonwy'n derbyn addysg ac mae ganddynt sgiliau;
- mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn Sir gydag economi ffyniannus ;
- mae pobl yng Nghonwy yn byw mewn amgylchedd cynaliadwy.

Yn yr adrannau hyn o'r adroddiad, rydym hefyd yn cyfeirio at ddatblygiadau yn ystod 2013-14.

## Mae dangosyddion perfformiad cenedlaethol yn cyflwyno darlun boddhaol o berfformiad a gwelliannau yn ystod 2012-13

18 Yn ei Adroddiad Blynyddol, cyflwynodd y Cyngor ddadansoddiad manwl a chywir o'i berfformiad yn erbyn y gyfres o 44 o Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol a Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus, yn ôl y gofyn. Mae'r dadansoddiad yn cynnwys esboniad clir o pam roedd perfformiad wedi methu â chyflawni amcan y Cyngor mewn chwe dangosydd. Dim ond 13 y cant o'r dangosyddion yw hynny. Cyflawnodd y Cyngor ei amcanion mewn 63 y cant ohonynt a barnodd ei fod yn gwneud cynnydd i gyflawni ei amcanion yn y 24 y cant sy'n weddill.

19 O gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru, roedd perfformiad y Cyngor yn y chwartel uchaf mewn 25 y cant o fesurau ac yn y chwartel isaf mewn 16 y cant yn unig. Mae hyn yn cynrychioli darlun sy'n foddhaol ar y cyfan. Gwnaeth perfformiad yng Nghonwy wella o gymharu â pherfformiad mewn cynghorau eraill yn erbyn ymhell dros hanner y dangosyddion perfformiad.

## Mae canlyniadau mewn ysgolion uwchradd yn cymharu'n dda ag ysgolion tebyg mewn rhannau eraill o Gymru ond mae'r system ysgolion cynradd yn ddrud ac nid yw'n perfformio cystal ag y dylai

20 Amcan gwella cyntaf y Cyngor yw bod, 'Pobl yng Nghonwy'n derbyn addysg ac mae ganddynt sgiliau'. Mae'r Cyngor wedi rhoi crynodeb o'i uchelgeisiau fel a ganlyn: 'Rydym am wella cyfleoedd cyflogaeth lleol drwy fynediad i fentrau cymdeithasol, darparu cyfleoedd hyfforddi i bobl sy'n agored i niwed, a chynorthwyo mwy o gynlluniau profiad gwaith a phrentisiaethau. Rydym am foderneiddio ein hysgolion a gwella mynediad disgyblion i TG. Rydym hefyd am wella canlyniadau TGAU.'

21 Mae'r Cyngor wedi asesu bod ei gynnydd cyffredinol yn erbyn yr amcan gwella hwn yn dda. Mae'n nodi cynnydd sylweddol yn nifer y lleoliadau profiad gwaith a phrentisiaethau modern y mae'r Cyngor yn gallu eu cynnig, er enghraifft, ond mae newidiadau mewn cyllid grant a meini prawf cymhwysedd wedi arwain at ostyngiad yn nifer y bobl agored i niwed sydd wedi cwblhau rhaglen gymorth y Cyngor ar sgiliau ymarferol a chyfleoedd hyfforddi.

### Yn gyffredinol, mae disgyblion mewn ysgolion uwchradd yn cyflawni'n dda ond nid yw safonau mewn ysgolion cynradd mor uchel ag y dylent fod

22 Gwnaeth Estyn a'r Archwilydd Cyffredinol arolygu gwasanaethau'r Cyngor ar gyfer plant a phobl ifanc yn 2011, gan nodi bod y ddarpariaeth gyffredinol yn dda a bod gallu'r Cyngor i wella hefyd yn dda. Ers yr arolygiad, mae'r Cyngor wedi cydnabod yr angen i barhau i gefnogi ysgolion i wella ansawdd dysgu ac addysgu, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2 (plant 11 oed) a TGAU (16 oed), lle roedd y canlyniadau yn 2012 yn is na'r hyn y gellid ei ddisgwyl.

23 Cynnydd cyfyngedig yn unig a wnaed o ran cyrhaeddiad disgyblion yn ysgolion cynradd Conwy yn 2013. Roedd canlyniadau yn y Cyfnod Sylfaen (saith oed) ac yng nghyfnod allweddol 2 wedi gwella o gymharu â 2012, ond roedd canlyniadau mewn mannau eraill yng Nghymru wedi gwella ar gyfradd gyflymach. O ganlyniad, gwnaeth ysgolion cynradd unwaith eto berfformio ar lefel is na'r hyn y gellid ei ddisgwyl. Yn 2013, gwnaeth 80.4 y cant o blant saith oed yn ysgolion Conwy gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen, yn is na chyfartaledd Cymru o 83 y cant, a'r trydydd isaf o'r holl gynghorau yng Nghymru. Yng nghyfnod allweddol 2, gwnaeth 83.1 y cant o ddisgyblion gyflawni'r dangosydd pwnc craidd[1] o gymharu ag 84.3 y cant ledled Cymru. Mae cymharu perfformiad yn ysgolion cynradd Conwy â pherfformiad mewn ysgolion ledled Cymru sydd â lefelau tebyg o amddifadedd yn dangos bod gormod o ysgolion yng Nghonwy wedi perfformio llai cystal na'r hyn y gellid ei ddisgwyl

1 I gyflawni'r dangosydd pwnc craidd, rhaid i ddisgybl gyflawni lefel ddisgwyliedig y cwricwlwm cenedlaethol mewn Cymraeg neu Saesneg (iaith gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth.

yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2.

24 Mae gan wasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol gogledd Cymru, ‘GwE’, a ddechreuodd ar ei waith ym mis Ebrill 2013, y potensial i hyrwyddo gwell safonau mewn ysgolion. Yn ogystal, mae gan GwE y potensial i wella cysondeb asesiadau athrawon ar draws Gogledd Cymru, ac mae hwn yn fater a allai effeithio ar ddibynadwyedd data am berfformiad disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol 2 a 3. Mae’r Cyngor yn cydnabod nad yw, yn y gorffennol, wedi gwneud digon o ddefnydd o ddata’n ymwneud â disgyblion unigol er mwyn nodi’r rhai mewn perygl o dangyflawni, a herio ac ymyrryd yn yr ysgolion hynny lle nad yw disgyblion yn cyflawni cystal ag y dylent.

25 Gwnaeth disgyblion mewn ysgolion uwchradd berfformio o leiaf cystal ag y gellid ei ddisgwyl ar y rhan fwyaf o ddangosyddion yn 2013. Yng nghyfnod allweddol 3, cyflawnodd 78.5 y cant o ddisgyblion 14 oed y dangosydd pwnc craidd, ychydig yn fwy na chyfartaledd Cymru o 77 y cant. Mae perfformiad yn erbyn y dangosydd hwn yn parhau i wella un unol â chyfartaledd Cymru. O ran plant 16 oed, cyrhaeddodd cyfran y disgyblion yng Nghonwy a gyflawnodd Drothwy Lefel 2 (sy’n cyfateb i bump neu ragor o gymwysterau TGAU da) 84.6 y cant yn 2013, yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru a’r trydydd uchaf yng Nghymru. Roedd cyfran y disgyblion yr oedd eu cymwysterau TGAU yn cynnwys graddau da yn Gymraeg neu Saesneg (iaith gyntaf) a mathemateg wedi gwella’n sylweddol yn 2013 i 56 y cant, y chweched uchaf yng Nghymru. Gwnaeth pob un o’r 1,267 o ddisgyblion a aseswyd yng nghyfnod allweddol 4 yn 2013 gyflawni o leiaf un cymhwyster cydnabyddedig. Yn y ddau gyfnod allweddol, cyflawnodd bron pob ysgol uwchradd yng Nghonwy ganlyniadau da o gymharu ag ysgolion eraill ledled Cymru sydd â lefelau tebyg o amddifadedd.

26 Roedd cyfran y rhai a adawodd yr ysgol yn 16 oed na aeth ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant na chyflogaeth wedi gostwng yn 2012 i 3.4 y cant. Er mai dyma’r uchaf ymhlith cynghorau yng ngogledd Cymru, mae’n parhau i fod yn well na chyfartaledd Cymru, sef 4.2 y cant.

27 Gwnaeth cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac arbennig ostwng ychydig bach yn ystod 2012-13 ond maent yn dal i gymharu’n dda â chyfartaledd Cymru. Mynychodd disgyblion 94.1 y cant o sesiynau yn ystod y flwyddyn. Mae presenoldeb mewn ysgolion unigol yn cymharu’n dda ag ysgolion tebyg mewn mannau eraill yng Nghymru. Mewn ysgolion uwchradd, gwelwyd gwelliant bach yn y cyfraddau presenoldeb i 92.9 y cant, ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae cymariaethau ag ysgolion tebyg mewn mannau eraill yng Nghymru yn nodi bod presenoldeb yn dda mewn pedair o ysgolion uwchradd Conwy ond bod presenoldeb yn y tair ysgol arall yn is na’r disgwyl.

28 Mae cyfraddau gwaharddiadau parhaol a thymor sefydlog o ysgolion uwchradd Conwy yn isel. Yn ystod blwyddyn academaidd 2011-12, y ddiweddaraf y mae data

cymharol ar gael ar ei chyfer, Conwy oedd un o ddau awdurdod yn unig yng Nghymru lle na chafwyd unrhyw waharddiadau parhaol yn ystod y flwyddyn. Roedd cyfraddau gwaharddiadau tymor sefydlog hefyd yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru. Mae'r Cyngor yn cynnal darpariaeth helaeth mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion i ddisgyblion y tybir eu bod mewn perygl o gael eu gwahardd, ac yn aml mae'n llwyddo i wella ymddygiad disgyblion yn ddigonol i'w galluogi i ddychwelyd i ysgolion prif ffrwd. Arolygodd Estyn y pum uned cyfeirio disgyblion yn ystod 2012-13, gyda deilliannau cymysg. Barnodd Estyn fod perfformiad cyffredinol yn rhagorol mewn un uned cyfeirio disgyblion ac yn dda mewn dwy arall. Fodd bynnag, roedd y perfformiad cyffredinol yn ddigonol mewn uned cyfeirio disgyblion arall ac yn anfoddhaol yn y pumed. Yn dilyn ymweliadau dilynol gan Estyn ym mis Ionawr 2014, barnwyd bod yr Unedau Cyfeirio Disgyblion gwannaf wedi gwneud cynnydd da ac nad oes angen gwelliannau sylweddol mwyach.

29 Mae'r Cyngor wedi llwyddo i ddilyn polisi o leihau nifer y disgyblion y mae'n cynnal datganiad o anghenion addysgol arbennig ar eu cyfer. Mae nifer y datganiadau a gedwir wedi gostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn o 642 ym mis Ionawr 2007 i 329 yn 2013. Mae'r gostyngiad hwn mewn datganiadau yn awgrymu bod rhieni ac ysgolion yn ymddiried yn y Cyngor i ddarparu'r cymorth angenrheidiol i ddisgyblion heb yr angen am ddatganiad. Mae llai o alw am ddatganiadau hefyd wedi galluogi'r Cyngor i sicrhau bod y disgyblion hynny y mae angen datganiadau arnynt yn cael un mewn modd amserol.

Mae'r rhaglen moderneiddio ysgolion yn mynd rhagddi'n raddol ond mae'r system ysgolion cynradd yn ddrutach o gymharu â'r rhan fwyaf o gynghorau ac mae gan ormod o ysgolion gronfeydd ariannol wrth gefn sylweddol

30 Mae'r Cyngor yn parhau i foderneiddio ei ystâd ysgolion. Ym mis Ionawr 2014, agorodd ysgol newydd sbon Ysgol y Gogarth yn Llandudno ei drysau i ddisgyblion. Cafodd y prosiect gwerth £18 miliwn hwn, a ariannwyd ar y cyd gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru, ei adeiladu ar amser ac o fewn y gyllideb. Mae'r ysgol yn cymryd lle'r adeilad blaenorol ac yn cynnig cyfleuster o'r radd flaenaf i ddisgyblion a chanddynt amrywiaeth o anghenion addysgol arbennig difrifol a chymhleth. Mae'r ysgol yn cynnwys bloc preswyl bach, gan alluogi rhai disgyblion y mae eu hanghenion wedi'u diwallu y tu allan i Gonwy yn flaenorol aros yn agosach i'w cartref. Bydd yr ysgol newydd hefyd yn ganolfan i rywfaint o staff y gwasanaethau cymdeithasol a'r awdurdod iechyd.

31 Mae'r Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Cynradd, a fabwysiadwyd yn 2010, yn nodi'r her y mae'r Cyngor yn ei hwynebu, gydag adnoddau gostyngol, i 'ddarparu'r amgylchedd priodol i alluogi ein plant a'n pobl ifanc i gyflawni sgiliau bywyd o'r safon uchaf'. Wedi'i llywio gan ymgynghori helaeth, mae'r strategaeth yn nodi gweledigaeth y Cyngor ar gyfer ysgolion cynradd yn y 21ain ganrif ac amserlen newid dros gyfnod o 15 mlynedd. Cyn mabwysiadu'r strategaeth, roedd y Cyngor eisoes wedi cau chwe ysgol gynradd er 1996. Ers 2010, mae dwy ysgol arall wedi cau ac mae cynlluniau pendant

ar waith ar gyfer rhagor o uno ac adeiladau newydd yng Nghyffordd Llandudno ac yn Nyffryn Conwy.

32 Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau cyflenwad digonol o leoedd ysgolion mewn ffordd effeithlon. Ym mis Ionawr 2013, roedd tua 1,685 o leoedd gwag mewn ysgolion cynradd (18.5 y cant o'r cyfanswm) wedi'u dosbarthu ar draws y 59 o ysgolion. Er bod hyn yn uwch na tharged Llywodraeth Cymru, sef 10 y cant, mae hyn dim ond ychydig bach yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 17.6 y cant. Ar draws y saith ysgol uwchradd, roedd 1,279 o leoedd gwag, yn cynrychioli 15.1 y cant o'r cyfanswm ac yn is na chyfartaledd Cymru, sef 18.7 y cant.

33 Felly mae lleihau lleoedd gwag yn un o'r ysgogwyr i Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Cynradd y Cyngor. Fodd bynnag, mae gan bron hanner yr ysgolion cynradd lai na 90 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae'r ysgolion bach hyn yn ddrud i'w cynnal ac nid oes gan benaethiaid lawer o amser ar gael ar gyfer arweinyddiaeth a rheoli. Yn ystod yr asesiad corfforaethol dywedwyd wrthym fod y Cyngor yn cael trafferth penodi ymgeiswyr cymwys ar gyfer swyddi penaethiaid wrth iddynt ddod yn wag. Mae'r Cyngor yn cynorthwyo cyrff llywodraethu mewn rhai ardaloedd i ystyried trefniadau i ffederaleiddio ysgolion cynradd a allai alluogi penaethiaid i reoli mwy nag un ysgol, a'u galluogi i ganolbwyntio'n fanylach ar godi safonau.

34 Roedd gwariant net wedi'i gyllidebu'r Cyngor ar addysg ar gyfer 2013-14, ar £5,277 fesul disgybl, ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru sef £4,992 fesul disgybl. Fodd bynnag, cost gros darpariaeth ysgolion gynradd, gan ystyried cyllid dirprwyedig a heb ei ddirprwyo, ond heb gynnwys cludiant o'r cartref i'r ysgol, yw'r trydydd uchaf o'r holl gynghorau yng Nghymru ar £5,145 fesul disgybl. Mae'r ffigur hwn wedi cynyddu 3.8 y cant ers 2010-11 ac mae cyfartaledd Cymru wedi cynyddu un y cant yn unig.

35 Mae'r Cyngor yn darparu cyngor a chymorth ariannol da i'w ysgolion. Dim ond un ysgol a ddechreuodd y flwyddyn ariannol 2013-14 gyda diffyg o'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, am nifer o flynyddoedd mae ysgolion wedi cadw lefelau uchel o gronfeydd ariannol wrth gefn. Mae'r balansau wedi gostwng o flwyddyn i flwyddyn er 2007-08, gan gyrraedd £3.8 miliwn ar ddiwedd 2012-13. Serch hynny, ar £243 fesul disgybl, dyma'r lefel uchaf o gronfeydd wrth gefn ymhlith cynghorau yng Nghymru. Mae gan ymhell dros hanner yr ysgolion gronfeydd wrth gefn sy'n fwy na phump y cant o'u cyllidebau dirprwyedig. Mae'r Cyngor yn herio'r ysgolion hynny'n sy'n cadw cronfeydd wrth gefn sylweddol i gyfiawnhau eu sefyllfaoedd ond, ar y cyfan, mae gormod o ysgolion yn cymryd ymagwedd or-ofalus at y defnydd o gyllid sydd wedi'i fwriadu i ddarparu ar gyfer y disgyblion sydd ar y gofrestr ar hyn o bryd.

## Mae gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth yn helpu i hyrwyddo Conwy fel cyrchfan i dwristiaid ac i gynorthwyo'r economi leol

36 Gwnaethom hefyd archwilio cynnydd y Cyngor o ran cyflawni'r pumed o'i amcanion gwella, sef bod 'Pobl yng Nghonwy yn byw mewn sir sydd ag economi ffyniannus'. Mae'r Cyngor wedi rhoi crynodeb o'i uchelgeisiau fel a ganlyn: 'Rydym eisiau canolbwyntio ar gefnogi twristiaeth, gan gefnogi'r economi wledig, cefnogi busnesau bach a mynd i'r afael â thlodi plant. Rydym eisiau datblygu digwyddiadau, adolygu sut gall ymagwedd y Cyngor tuag at gaffael gefnogi'r economi lleol, bod yn fwy rhagweithiol wrth ymgysylltu â busnesau, cynyddu swyddi lleol ac annog buddsoddiad mewnol.'

37 Mae'r Cyngor wedi nodi ei fod wedi gwneud cynnydd da i ddatblygu'r cyfeiriad strategol ar gyfer datblygu economaidd yn ystod 2012-13. Mae'n nodi bod nifer o ddigwyddiadau proffil uchel wedi helpu i roi Conwy 'ar y map' er bod tywydd gwael wedi effeithio ar ffigurau twristiaeth. Mae'r Cyngor hefyd yn nodi bod yr hinsawdd economaidd wedi effeithio ar ganlyniadau megis cyfraddau diweithdra, a barhaodd i godi rhwng 2011 a 2013, er eu bod yn is na chyfartaledd Cymru. Mae hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad yn graddio pob un o'r chwe haen mewn perthynas â'r amcan gwella hwn fel un 'ambr', sy'n golygu bod camau gweithredu yn mynd rhagddynt ac nad oes unrhyw bryderon wedi'u codi.

38 Cafodd ein gwaith yn ystod yr asesiad corfforaethol fod y Cyngor yn helpu i gyflawni gwell canlyniadau economaidd drwy ganolbwyntio ar hyrwyddo Conwy fel sir i ymweld â hi ac aros ynddi. Mae'r Cyngor yn gweithio'n dda gyda rhanddeiliaid i gynyddu nifer yr ymwelwyr drwy hyrwyddo'r ardal fel cyrchfan gydol y flwyddyn. Er enghraifft, mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi ymestyn ei thymor yn ei heiddo yng Nghonwy. Mae'r Cyngor wedi defnyddio cyllid grant i ddatblygu gwefan amlieithog sy'n gysylltiedig â thwristiaeth, ac mae wedi gosod ciosgau â sgriniau cyffwrdd mewn lleoliadau strategol. Roedd mentrau i annog twristiaeth wedi helpu i leihau effaith caledi ar niferoedd ymwelwyr yn ystod 2012-13. Er bod nifer yr ymwelwyr dydd wedi gostwng pump y cant ac arosiadau dros nos 3.2 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, roedd cyfartaledd Cymru ar gyfer y mesurau hyn wedi gostwng dwywaith cymaint.

39 Mae'r Cyngor yn cynnal nifer cynyddol o ddigwyddiadau proffil uchel fel rhan o'i waith i hyrwyddo'r ardal fel cyrchfan i dwristiaid. Er enghraifft, cynhaliodd y Cyngor ddechrau a diwedd Rali Cymru GB ym mis Tachwedd 2013 a chafodd hyn ei drefnu a'i dderbyn yn dda. Rhoddodd y digwyddiad gyfleoedd da, ystyriol o deuluoedd i deuluoedd i hyrwyddo'r fwrdeistref sirol a gogledd Cymru yn fwy eang. Mae'n debygol bod y Cyngor a'r ardal ehangach wedi cael budd o gyhoeddusrwydd da yn lleol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Yn ychwanegol at hyn, mae digwyddiadau o'r fath yn creu incwm i fusnesau lleol. Mae'r Cyngor yn amcangyfrif, er enghraifft, bod yr

Ŵyl Gorawl yn Llandudno, a gynhaliwyd yn 2013, wedi denu dros 3,000 o ymwelwyr ac wedi cyfrannu tua £300,000 at yr ecconomi leol.

40 Mae'r Cyngor yn gyfrifol am weithredu rhai atyniadau lleol ac mae'n cyfrannu'n ariannol at gostau rhedeg atyniadau eraill. Er enghraifft, mae Parc Eirias ym Mae Colwyn yn ddatblygiad cymharol newydd sy'n cael ei redeg gan y Cyngor ac sy'n rhan o'r strategaeth ehangach i adfywio'r dref. Mae'r lleoliad yn cynnig cyfleusterau hyfforddi o'r radd flaenaf a, chan weithio mewn partneriaeth ag Undeb Rygbi Cymru, mae'n cynnal gemau rygbi rhyngwladol yn rheolaidd. Mae'r digwyddiad cerddorol blynyddol 'Access All Eirias' yn denu perfformwyr cynyddol adnabyddus.

41 Mae'r Cyngor hefyd yn cyfrannu ychydig dros £1 filiwn y flwyddyn at gostau rhedeg theatr a chanolfan gynadledda Venue Cymru yn Llandudno. Mae penderfyniadau polisi o'r fath yn ddilys, ac mae buddsoddiad y Cyngor yn helpu i ddenu ymwelwyr y mae eu gwariant yn rhoi hwb i'r economi leol. Amcangyfrifa'r Cyngor, er enghraifft, fod y cyfleuster yn denu tua 60,000 o arosiadau dros nos ychwanegol y flwyddyn mewn gwestai a thai llety lleol. Fodd bynnag, mae caledi ariannol cynyddol yn debygol o'i gwneud yn ofynnol i'r Cyngor yn adolygu ei ymrwymiadau ariannol i fentrau o'r fath er mwyn cynnal gwasanaethau statudol hanfodol.

42 Nod y Cyngor yw datblygu ei economi wledig yn ogystal â'r economi yn y llain arfordirol fwy poblog. Mae'r Cyngor yn chwarae rhan weithredol yn y Bartneriaeth Wledig, sy'n cydgysylltu ystod o brosiectau a ariennir gan Raglen Datblygu Gwledig Ewrop. Fodd bynnag, canfuwyd y galli'r Cyngor wneud mwy i fonitro effaith mentrau o'r fath ar ardaloedd gwledig a chyflwyno adroddiadau ar hynny. Mae'r Cyngor yn cymryd camau i gryfhau ei drefniadau; yn ystod 2012-13 sefydlodd Rwydwaith Busnes Gwledig a fydd yn helpu i hyrwyddo rhannu arferion da.

43 Cafwyd bod swyddogion o bob rhan o'r Cyngor yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i fynd i'r afael ag amcan gwella'r Cyngor, gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ganddynt yn effeithiol i gynorthwyo ei gilydd. Maent yn defnyddio eu gwybodaeth am yr economi leol yn dda i ddylanwadu ar gyflawni mentrau cymorth. Er enghraifft, mae negeseuon allweddol o ddadansoddiad y Cyngor o'r economi leol ac o 'Arolwg Busnes Conwy 2013' yn dylanwadu ar y math o hyfforddiant galwedigaethol a gynigir gan bartneriaid ac yn helpu partneriaid i dargedu eu cymorth yn unol â hynny.

44 Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi cydnabod iddo fod yn llai llwyddiannus nag y gallai fod wedi bod o ran cynorthwyo a chryfhau ei gysylltiadau â busnesau lleol, ac yn ddiweddar penododd swyddog cymorth busnes i fynd i'r afael â'r mater. Nid yw'r Cyngor wedi bod mor llwyddiannus ag yr oedd yn ei obeithio o ran defnyddio ei brosesau caffael i gynorthwyo busnesau

lleol. Er gwaethaf amrywiaeth o fentrau'n ymwneud â chaffael yn ystod 2012-13, bu gostyngiad yng nghyfran y contractau a ddyfarnwyd i fusnesau lleol. Mae uwch swyddogion yn awgrymu y gall hyn adlewyrchu'r arwain rhwng cyflawni'r cymorth i fusnesau lleol a'i effaith. Bydd strategaeth gaffael newydd y Cyngor yn cynnwys cysylltiad cliriach â'r economi leol, gyda mwy o bwyslais ar gymalau cymdeithasol.

45 Mae'r Cyngor yn chwarae rhan weithredol, ochr yn ochr â'r pum cyngor arall yng Ngogledd Cymru, yng ngwaith Bwrdd Uchelgais Economaidd y Gogledd[2] ac o ran gweithredu Strategaeth Economaidd Gogledd Cymru. Conwy yw'r awdurdod sy'n arwain ar Gyllid Ewropeaidd. Yn ddiweddar mae'r Bwrdd wedi sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru i sefydlu Cronfa Sgiliau a fydd yn helpu i fynd i'r afael â'r prinder sgiliau a nodwyd drwy Arolwg Busnes 2013 ac o ffynonellau eraill. Mae'r broses o adolygu cylch gorchwyl y Bwrdd yn cyflymu ar ôl dechrau araf.

46 Mae'r Cyngor hefyd, gyda'i bartneriaid yn y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, yn cymryd camau i gyflawni canlyniadau gwrthdlodi gwell i ddinasyddion. Bydd cyfanswm o tua 1,800 o staff o amrywiaeth o bartneriaid yn cael hyfforddiant ar gynhwysiant ariannol i gynorthwyo teuluoedd lleol a lleihau effaith diwygio lles.

## Mae'r Cyngor yn ymfalchïo mewn cynnal amgylchedd glân i ddinasyddion ac ymwelwyr ond mae cynnydd o ran lleihau allyriadau carbon a datblygu newid technolegol cynaliadwy wedi bod yn arafach

47 Canlyniad Chwech yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor yw bod 'Pobl yng Nghonwy yn byw mewn amgylchedd cynaliadwy'. Mae'r Cyngor wedi rhoi crynodeb o'i uchelgeisiau fel a ganlyn: 'Rydym eisiau diogelu a hyrwyddo ein traethau, parciau a gwarchodfeydd natur ac rydym eisiau ymdrin â safleoedd di-lun. Rydym eisiau lleihau ein hôl-troed carbon, lleihau'r gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi a chynyddu ailgylchu a chyflawni pum lefel System Reoli'r Ddraig Werdd. Rydym eisiau ymchwilio i dechnoleg newydd fel y gallwn foderneiddio'r ffyrdd rydym yn gweithio, lle bo hynny'n briodol.'

48 Mae'r Cyngor wedi nodi bod ei berfformiad yn cynrychioli blwyddyn gyntaf gadarnhaol o ran cyflawni'r amcan gwella hwn. Mae'n cydnabod nad oedd pob targed wedi'i gyflawni yn 2012-13 ond mae'n dod i'r casgliad bod tystiolaeth dda o wella a bod cynlluniau ar waith i sicrhau mwy o wella yn y dyfodol. Mae hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad yn graddio pump o'r chwe haen o weithgarwch sy'n ymwneud â'r amcan gwella hwn fel rhai 'ambr', sy'n golygu bod camau gweithredu yn mynd rhagddynt ac nad oes unrhyw bryderon wedi'u codi. Mae'r chweched cam wedi'i raddio'n 'wyrdd', sy'n golygu bod y Cyngor wedi cwblhau ei waith i gynnal a gwella ansawdd ei warchodfeydd natur, traethau a pharciau a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt.

2 Mae'r Bwrdd Uchelgais Econonomaidd yn fenter gydweithredol sy'n cynnwys y chwe chyngor yng Ngogledd Cymru, a sefydlwyd yn 2012 gyda'r prif nod o wella cynhyrchiant, cystadleurwydd a thwf economi Gogledd Cymru.

49 Mae ein gwaith yn cadarnhau asesiad y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi dangos perfformiad da yn erbyn ei dargedau ei hun ar gyfer dros 70 y cant o ddangosyddion ac mae ganddo nifer o fentrau eraill ar waith. Er na wnaeth y Cyngor gyflawni ei darged 'mynegai glendid' uchelgeisiol iawn, unwaith eto cafodd ffyrdd a mannau agored Conwy eu graddio'n uchel o gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru. Roedd cyfraddau compostio ac ailgylchu hefyd yn uchel. Gwelwyd gwelliant sylweddol yng nghyfran y gwastraff trefol a ailgylchwyd, a ailddefnyddiwyd neu a gompostiwyd yn 2012-13 ac, ar 56.4 y cant, roedd ymhell uwchlaw cyfartaledd Cymru, sef 52.3 y cant.

50 Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod rhagor o waith yn angenrheidiol i gynyddu ailgylchu a lleihau swm y gwastraff a anfonir i'w dirlenwi. Mae'r Cyngor yn un o bum cyngor sy'n gweithio gyda'i gilydd ym Mhartneriaeth Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru i sicrhau ateb hirdymor a fydd yn lleihau swm y gwastraff a anfonir i'w dirlenwi yn y dyfodol. Mae'r prosiect hwn yn mynd rhagddo'n dda. Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi cydweithio â Chynghorau Sir y Fflint a Sir Ddinbych i gaffael gwaith ailgylchu, y disgwylir iddo agor yn hwyrach yn 2014, a fydd yn cynhyrchu pŵer o wastraff bwyd. Mae'r Cyngor hefyd yn gweithredu gwaith compostio mewn partneriaeth â Chynghorau Ynys Môn a Gwynedd.

51 Mae pob ysgol yng Nghonwy yn eco-ysgol a'r rhaglen beilot Ysgolion Carbon yw'r gyntaf yng Nghymru. Yn ogystal, dyfarnwyd Lefel 5 Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd i'r Cyngor yn ddiweddar. Mae'n un o ddau gyngor yn unig yng Nghymru sydd wedi cyrraedd y safon hon.

52 Nod y Cyngor yw lleihau ei allyriadau carbon 25 y cant erbyn 2015-16, o gymharu â lefelau allyriadau 2010-11. Roedd y gostyngiadau a gyflawnwyd yn 2012-13 yn sylweddol is na'r targed, yn rhannol oherwydd y gaeaf oer. Er bod y Cyngor wedi mabwysiadu cynllun rheoli carbon newydd ym mis Mehefin 2012, mae'n cydnabod nad oedd nifer o brosiectau cysylltiedig wedi dechrau'n brydlon. Mae adroddiad ar berfformiad ar gyfer rhan gyntaf 2013-14 yn cydnabod bod cynnydd yn arafach na'r hyn a gynlluniwyd.

53 Mae'r rhan fwyaf o'r gweithgarwch a gynlluniwyd o dan yr amcan gwella hwn yn ymwneud â gwella'r amgylchedd. Fodd bynnag, mae un o'r camau blaenoriaeth yn ymwneud ag ymchwilio i fanteision arbed costau ac amser technoleg newydd er mwyn moderneiddio ffyrdd o weithio. Yn yr hinsawdd bresennol o leihau cyllid, mae gan waith fel hwn sy'n canolbwyntio yn fewnol ran allweddol i'w chwarae o ran cynyddu effeithlonrwydd y Cyngor.

54 Mae'r Cyngor wedi cyflwyno nifer o newidiadau yn y maes hwn, gan gynnwys swyddogion ac aelodau etholedig yn treialu'r defnydd o gyfrifiaduron llechen er mwyn lleihau'r defnydd o bapur ac ymchwilio i opsiynau o ran cyflwyno trefniadau gweithio symudol a hyblyg i staff. Mae Rhaglen Trawsnewid y Cyngor yn cynorthwyo amrywiaeth o brosiectau i weithredu technoleg newydd ac adolygu systemau corfforaethol presennol. Fodd bynnag, cyfeiria adroddiad cryno'r rhaglen a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2013 at gynnydd cymysg a noda risgiau sylweddol megis diffyg capasiti ac adnoddau digonol, er enghraifft, yn y prosiect i gyflwyno system rheoli dogfennau a llif gwaith electronig.

55 Nid yw gwerthusiad y Cyngor o'i berfformiad yn 2012-13 yn cynnwys unrhyw fesurau llwyddiant na thargedau'n ymwneud â'i waith o archwilio manteision technoleg newydd o ran moderneiddio ffyrdd o weithio. Daw'n gynyddol bwysig bod y Cyngor yn deall graddau'r arbedion y gall eu gwneud o ganlyniad i arloesi o'r fath a'i fod yn gwbl ymwybodol o'r cynnydd y mae'n ei wneud o ran cyflawni'r arbedion hynny.

## Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn nodi newidiadau cadarnhaol, hyddysg yn y ddarpariaeth gwasanaethau cymdeithasol er bod meysydd i wella arnynt o hyd

56 Bob blwyddyn, rhaid i Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol pob cyngor baratoi hunanasesiad sy'n bodloni gofynion Fframwaith Adrodd Blynyddol Cynghorau Llywodraeth Cymru. Mae AGGCC yn ymateb i hunanasesiad pob cyngor. Ym mis Hydref 2013, cyhoeddodd AGGCC ai adolygiad a'i werthusiad o wasanaethau cymdeithasol y Cyngor yn ystod 2012-13. Mae'r adroddiad yn disgrifio newidiadau cadarnhaol ar draws gwasanaethau oedolion a phlant.

57 Cafodd AGGCC fod camau gweithredu'r Cyngor wedi galluogi mwy o oedolion i weithredu dewis a rheolaeth o ran eu cymorth personol. Mae cynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar daliadau uniongyrchol wedi bod yn un maes i'w wella yn ystod adroddiadau'r blynyddoedd blaenorol ac, yn ystod 2012-13, defnyddiodd mwy o oedolion o dan 65 oed daliadau uniongyrchol i gael mynediad i gymorth.

58 Dengys arolygiadau AGGCC yn ystod 2012-13 sut mae'r Cyngor yn galluogi pobl â dementia ac yn cynorthwyo eu datblygiad personol. Mae AGGCC yn nodi bod y Cyngor mewn sefyllfa gref i ddatblygu ymhellach wasanaeth effeithiol a dymunol i bobl â dementia ond bod mynediad i wasanaethau yn y gymuned mewn ardaloedd gwledig yn parhau'n faes i'w ddatblygu.

59 Yn 2011-12, nododd AGGCC er bod trefniadau rhyddhau o'r ysbyty i bobl sy'n gadael yr ysbyty yn digwydd yn gyflym, nid oeddent bob amser yn gweithio'n dda. Mae adroddiad 2012-13 AGGCC yn cadarnhau y bu cynnydd cadarnhaol: mae gwell gweithio mewn partneriaeth rhwng staff gwaith cymdeithasol a staff iechyd wedi gwella ansawdd trefniadau rhyddhau o'r ysbyty. O ganlyniad, mae achosion o ryddhau'n anniogel o'r ysbyty wedi gostwng o 15 yn 2011-12 i ddim achosion o gwbl yn 2012-13.

60 Mae AGGCC yn nodi bod Conwy yn mynd ati'n rhagweithiol i geisio cyfleoedd i ddysgu gwersi a gwella gwasanaethau. Mae'r Cyngor wedi ymgysylltu'n effeithiol â phobl sy'n defnyddio ei wasanaethau, yn ogystal â staff a phartneriaid mewn addysg ac iechyd, ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar lunio a datblygu gwasanaethau. Mae parhau i weithio mewn partneriaeth wedi helpu'r Cyngor i gynllunio ar gyfer newid, rhannu adnoddau a darparu gwasanaethau gwell sydd wedi'u hintegreiddio'n well. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn nodi bod angen rhagor o waith i wireddu potensial partneriaethau gyda'r sector gwirfoddol, fel y nodwyd yn flaenorol y llynedd.

61 Cafodd AGGCC fod angen gwella amseroldeb adolygiadau ac ailasesu gofal, yn enwedig i oedolion mewn gofal preswyl ac i blant. Yn 2012-13, roedd llai o bobl a oedd yn cael pecynnau gofal yn cael adolygiadau nag o'r blaen. Gwnaeth gwerthusiad o'r broses ymholi, atgyfeirio ac asesu amlygu materion o ran effeithiolrwydd rhai ymatebion i alwyr lle nad yw mynediad i staff proffesiynol, mwy gwybodus yn bosibl. Nododd AGGCC hwn fel maes ar gyfer gwella.

62 Nododd AGGCC fod y Cyngor wedi datblygu ymagwedd fwy rhagweithiol at nodi a gweithredu i wella canlyniadau i bobl ifanc sy'n gadael gofal ond mae lle i wella ymhellach.

## Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi nodi arferion da o ran y ffordd y mae'r Cyngor yn gweithredu ei chynllun Iaith Gymraeg

63 Mae'r Cyngor yn cynnwys ymhlith ei amcanion gwella, y nod bod, 'Pobl yng Nghonwy'n byw mewn sir lle mae treftadaeth, diwylliant a'r iaith Gymraeg yn ffynnu'. Nid ydym wedi archwilio cynnydd y Cyngor yn fanwl yn erbyn yr amcan gwella hwn, ond mae'r Cyngor yn nodi ei fod wedi gwneud cynnydd da ym mhob un o'r camau gweithredu namyn un.

64 Crëwyd rôl Comisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Disgwylir y bydd pwerau newydd i osod safonau ar sefydliadau yn dod i rym drwy is-ddeddfwriaeth erbyn diwedd 2014. Tan hynny, bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg drwy rinwedd pwerau a etifeddwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

65 Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob awdurdod lleol yng Nghymru i archwilio a chynghori ar weithredu cynlluniau iaith. Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob awdurdod lleol yn ymrwymedig i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad o ran gweithredu'r cynllun iaith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro; yn rhoi ymateb ffurfiol ac yn casglu mwy o wybodaeth yn ôl y gofyn.

66 Mae'r Comisiynydd wedi dweud wrthym fod y Cyngor wedi cymryd camau rhagweithiol i gynyddu sgiliau iaith staff drwy recriwtio. Roedd cyfanswm o 70 y cant o'r staff a benodwyd yn ystod 2012-13 yn gallu siarad Cymraeg. Bu cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg ar fewnrwyd y Cyngor; mae'r wybodaeth am fwy na hanner gwasanaethau'r Cyngor bellach ar gael yn Gymraeg ac mae gwaith wedi dechrau ar y gweddill. Mae gan y Cyngor weithdrefn graffu gadarn ar waith i fonitro contractau â darparwyr gwasanaethau trydydd parti ac mae Swyddog Iaith y Cyngor yn

gweithio'n agos gyda'r Swyddog Caffael. Mae'r Cyngor yn cynnal gwiriadau archwilio mewnol i werthuso ei wasanaethau. Mae'r Comisiynydd yn disgwyl i'r Cyngor barhau â'r arfer da hwn ac i sicrhau ei fod yn cymryd camau i wella drwy weithredu ei hargymhellion.

67 Mae'r Cyngor yn cynnwys, fel mesur o dan yr amcan gwella hwn, nifer yr ysgolion cynradd sy'n addysgu o leiaf 25 y cant o'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg. Cyflawnodd un ysgol arall y targed hwn yn ystod 2012-13 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Gwnaeth y Cyngor hefyd gyflawni ei dargedau i gynyddu cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefelau disgwyliedig yn Gymraeg (ail iaith) yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, credwn y byddai targedau a mesurau sy'n ymwneud â chyfran y disgyblion sy'n astudio Cymraeg (iaith gyntaf) ac yn cyflawni'r safonau disgwyliedig yn darparu gwell mesur o ran i ba raddau mae'r Gymraeg yn ffynnu yn ysgolion Conwy.

# Mae'r Cyngor yn paratoi gwerthusiadau cytbwys, hyddysg o'i berfformiad a'i drefniadau llywodraethu ac mae'n rheoli risgiau'n systematig

68 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn ystyried pa mor dda mae'r Cyngor yn deall ac yn gwerthuso ei berfformiad ac ansawdd y trefniadau sy'n sail i ddarparu gwasanaethau.

## Yn gyffredinol, mae'r Cyngor yn defnyddio ystod eang o ddata perthnasol yn dda er mwyn dadansoddi a gwerthuso ei berfformiad

69 Mae hunanwerthuso trylwyr a chadarn yn dibynnu'n drwm ar gywirdeb data perfformiad a'r effeithiolrwydd o ran ei ddefnyddio. Cafodd ein hadolygiad o gywirdeb sampl fach o ddata perfformiad y Cyngor ym mis Mehefin 2013 fod mân gamgyfrifiadau mewn rhai achosion ond nid oedd y rhain wedi arwain at newidiadau sylweddol i werthoedd y dangosyddion perfformiad cysylltiedig.

70 Mae'r Cyngor yn gwneud defnydd helaeth o ddangosyddion perfformiad lleol i werthuso ei berfformiad. Mae defnyddio mesurau o'r fath yn aml yn galluogi asesiad mwy ystyrlon o gynnydd tuag at gyflawni ei nodau a'i amcanion na'r hyn fyddai'n wir drwy ddefnyddio dangosyddion perfformiad cenedlaethol. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod bod defnyddio dangosyddion perfformiad lleol yn ei gwneud yn fwy anodd cymharu perfformiad â sefydliadau tebyg eraill ac mae'n cymryd camau i fynd i'r afael â'r mater hwn mewn trafodaeth â chynghorau eraill yng ngogledd Cymru.

71 Mae gan reolwyr ac aelodau etholedig fynediad i amrywiaeth eang o wybodaeth. Canfuom fod tîm Perfformiad a Gwella'r Cyngor yn uchel ei barch. Roedd y rheolwyr a holwyd yn fodlon ar ansawdd a swm y wybodaeth maent yn ei derbyn i'w helpu i reoli eu gwasanaethau.

72 Mae Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth ddwywaith y flwyddyn yn rhan bwysig o drefniadau rheoli perfformiad y Cyngor ac maent yn cyfrannu'n dda at allu'r Cyngor i werthuso ei gynnydd. Cyn Adolygiad, mae rheolwyr yn paratoi datganiadau sefyllfa cynhwysfawr a manwl gan ddefnyddio'r data perfformiad sydd ar gael a chynnydd prosiectau mawr. Yn dilyn hynny, bydd uwch staff a chynghorwyr yn herio datganiad sefyllfa'r gwasanaeth cyn paratoi cofnod cytbwys y cytunwyd arno o'r materion allweddol a nodwyd. Er bod Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth wedi bod yn cael eu cynnal am sawl blwyddyn, mae'r Cyngor yn parhau i adolygu ac edrych am ffyrdd o wella'r broses a chryfhau llywodraethu ac atebolrwydd.

73 Yn y rhan fwyaf o achosion, mae data mewn adroddiad i gynghorwyr yn glir ac wedi'i gyflwyno'n dda. Mae aelodau'r Cabinet yn cael eu briffio'n dda i sicrhau bod ganddynt amgyffrediad cadarn o'r manylion yn y meysydd hynny y maent yn gyfrifol amdanynt. Mae adroddiad perfformiad corfforaethol ddwywaith y flwyddyn yn darparu trosolwg lefel uchel priodol o gynnydd ar berfformiad i gynghorwyr. Er nad yw'r adroddiadau perfformiad corfforaethol hyd yma yn cynnwys dyfarniad crynodeb cyffredinol ar gynnydd tuag at gyflawni amcanion, mae cynlluniau cadarn i gyflwyno hyn yn y dyfodol.

74 O ran adroddiadau i gynghorwyr, mae’r ansawdd dadansoddi yn dda ar y cyfan, er bod eithriadau. Mae’r dadansoddiad o berfformiad ysgolion, er enghraifft, wedi bod yn rhy arwynebol. Yn rhannol o ganlyniad i hyn, tan yn ddiweddar mae pwyllgorau craffu wedi darparu her gyfyngedig ar y mater hwn. Mae’r Cyngor wedi bod yn arafach na llawer o gynghorau eraill i gynnwys cynghorwyr wrth ystyried materion perfformiad mewn ysgolion unigol. Dim ond yn ddiweddar y mae aelodau wedi dod yn ymwybodol o gategoreiddio ysgolion, er enghraifft, a dim ond yn ddiweddar y mae llywodraethwyr wedi cymryd rhan yn y drafodaeth am ysgolion sy’n achos pryder.

## Cafodd gwerthusiad y Cyngor o’i berfformiad yn 2012-13 ei ategu gan adolygiad trylwyr o’i drefniadau llywodraethu ac roedd yn gytbwys ac yn hyddysg

75 Fel sy’n ofynnol gan Fesur Llywodraeth Leol 2009 (y Mesur), cyhoeddodd y Cyngor asesiad o’i berfformiad yn ystod 2012-13 yn ei ‘Adroddiad Blynyddol: Gwerthuso Ein Perfformiad: 2012-13’ cyn 31 Hydref 2013. Nodwyd ym mis Tachwedd 2013 fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran adrodd ar wella o dan y Mesur a’i fod wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

76 Mae’r Adroddiad Blynyddol hwn yn cyflwyno gwerthusiad cytbwys o berfformiad y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol ac mae’n cynrychioli ymateb y Cyngor i’r gofyniad statudol i baratoi gwerthusiad blynyddol o berfformiad. Yn sail i’r Adroddiad Blynyddol mae amrywiaeth o drefniadau mewnol a phrosesau busnes sy’n gyffredinol yn cyfrannu’n dda at allu’r Cyngor i ddeall pa mor dda mae’n perfformio a’i allu i nodi meysydd sydd angen eu gwella. Rydym yn trafod cynllunio’r Cyngor a’i brosesau busnes yn llawnach yn adran nesaf yr adroddiad hwn.

77 Nododd AGGCC fod adran y gwasanaethau cymdeithasol wedi craffu’n drylwyr ar ei arferion a’i brosesau yn ystod 2012-13. Arweiniodd hyn at adroddiadau hunanfeirniadol, gonest a nododd flaenoriaethau ar gyfer y dyfodol ac a ddangosodd weledigaeth i godi safonau a gwneud y defnydd gorau o adnoddau.

78 Yn ystod 2012-13, cynhaliwyd Astudiaeth Wella ar draws pob cyngor i asesu pa mor dda roeddent wedi gwerthuso effeithiolrwydd eu trefniadau llywodraeth o ran paratoi eu Datganiadau Llywodraethu Blynyddol.

79 Yng Nghonwy, nodwyd y canlynol gennym:

- roedd adolygiad y Cyngor o’i drefniadau llywodraethu yn ystod 2012-13 wedi bod yn drylwyr, yn gadarn ac yn ddigon eang; ac
- roedd y Cyngor wedi nodi meysydd sydd angen eu gwella yn ei drefniadau llywodraethu ac roedd wedi gwneud cynlluniau i i fynd i’r afael â hwy.

80 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn defnyddio materion y mae rheoleiddwyr allanol wedi tynnu sylw'r Cyngor atynt yn briodol. Mae'r Cyngor wedi dangos ei barodrwydd i weithredu er mwyn mynd i'r afael â gwendidau a nodwyd yn y modd hwn. Mae wedi, er enghraifft, sefydlu fforwm i reolwyr prosiectau a rhaglenni mewn ymateb i fethiannau yn y gorffennol o ran rheoli prosiectau cyfalaf mawr. Mae'r fforwm yn galluogi rheolwr i drafod eu pryderon eu hunain ag uwch reolwyr ac, yn ei dro, mae'n helpu i sefydlu mwy o gysondeb o ran gweithredu polisïau a gweithdrefnau'r Cyngor. Mae'r adran newydd Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau hefyd yn ceisio gwella ansawdd a chysondeb rheoli prosiectau ar draws timau technegol y Cyngor.

## Ni fynegodd yr Archwilydd Penodedig unrhyw bryderon am agweddau ansoddol ar arferion cyfrifyddu a chyflwyno adroddiadau ariannol y Cyngor

81 Rhoddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ei farn ar gyfrifon y Cyngor yn ddiweddar. Mae Atodiad 3 yn rhoi mwy o fanylion. Ni fynegodd yr Archwilydd Penodedig unrhyw bryderon am agweddau ansoddol ar arferion cyfrifyddu a chyflwyno adroddiadau ariannol y Cyngor. Nododd fod polisïau cyfrifyddu ac amcangyfrifon yn briodol a bod y datganiadau ariannol drafft o ansawdd da, yn ddiduedd, yn deg ac yn glir.

## Mae'r trefniadau rheoli risg yn gynhwysfawr, yn systematig ac yn rhoi sicrwydd yr eir i'r afael â risgiau i berfformiad a llywodraethu

82 Mae'r Cyngor wedi datblygu ymagwedd gynhwysfawr at asesu a rheoli risgiau sy'n adlewyrchu ei hunanwerthusiad ac yn ei lywio. Mae'r polisi rheoli risg yn cynnwys amcanion, egwyddorion a rolau a chyfrifoldebau clir yn ogystal â chanllawiau manylach ar y defnydd o'r polisi. Mae'r Cyngor yn darparu hyfforddiant i'r staff hynny sy'n gyfrifol am asesu risg gwasanaethau neu brosiectau.

83 Ar y cyfan, mae cofrestrau risg gwasanaethau a phrosiectau a chofrestr risg gorfforaethol y Cyngor yn ddogfennau cynhwysfawr a manwl. Mae gwahanol gofrestrau risg yn cysylltu â'i gilydd yn dda, gyda risgiau a nodwyd ar lefel gwasanaeth neu brosiect yn cael eu dyrchafu i'r gofrestr risg gorfforaethol pan fydd yn briodol gwneud hynny. Yn yr un modd, mae risgiau corfforaethol yn disgyn i gofrestrau risg gwasanaethau pan fydd y Cyngor yn gweld bod y risg wedi lleihau o ran ei harwyddocâd.

84 Mewn rhai achosion, canfuwyd bod cofrestrau risg gwasanaethau yn amrywio yn eu fformat ac o ran i ba raddau roedd yr holl adrannau wedi'u cwblhau. Mae gan wahaniaethau o'r fath y potensial i danseilio cyflawni dealltwriaeth gyffredin o asesu risgiau.

85 Mae'r Cyngor yn sicrhau bod gan amrywiaeth priodol o'i aelodau'r cyfle i ystyried y risgiau mae'r Cyngor yn eu hwynebu ac i herio asesiadau swyddogion o'r risgiau hynny. Mae'r gofrestr risg gorfforaethol yn cael eu hadrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio, y Prif Bwyllgor Trosolwg a Chraffu ac i'r Cabinet. Er bod y gofrestr risg gorfforaethol yn ddogfen hir, mae'n amlygu'n glir risgiau newydd a'r risgiau hynny y mae eu graddfeydd wedi newid ers yr asesiad diwethaf. Mae tabl cryno defnyddiol hefyd yn cysylltu risgiau â meysydd yn y Cynllun Corfforaethol, gan helpu i ganolbwyntio ar amcanion gwella'r Cyngor.

86 Drwy wahodd rheoleiddwyr i gyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn er mwyn trafod newidiadau i'r gofrestr risg gorfforaethol, mae'r Cyngor hefyd yn gwneud ei asesiadau o risgiau a'i gynlluniau i liniaru'r risgiau hynny yn agored i her. Mae'r broses hon yn ddefnyddiol o ran darparu sicrwydd i reoleiddwyr ac i'r Cyngor.

## Mae'r rhan fwyaf o agweddau ar lywodraethu a rheoli perfformiad ac adnoddau yn ategu cyfraniad y Cyngor at wella gwasanaethau ond mae'r hinsawdd ariannol lem yn her sylweddol

87 Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar ein hasesiad o lywodraethu a rheoli'r Cyngor sydd, gyda'i gilydd, yn sail i wneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau.

### Mae gan y Cyngor weledigaeth a fynegir yn glir sy'n seiliedig ar ddadansoddiad o angen ac fe'i hategir gan ethos tîm cryf ymhlith staff a chynghorwyr a rhyngddynt

88 Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2012-17 yn nodi wyth amcan. Dyma'r amcanion hyn:

- mae pobl yng Nghonwy'n derbyn addysg ac mae ganddynt sgiliau;
- mae pobl yng Nghonwy'n ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel;
- mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn tai diogel ac addas;
- mae pobl yng Nghonwy'n iach ac yn annibynnol;
- mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn Sir gydag economi ffyniannus;
- mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn amgylchedd cynaliadwy;
- mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn Sir lle mae treftadaeth, diwylliant a'r iaith Gymraeg yn ffynnu; ac
- mae pobl yng Nghonwy yn cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais.

89 Mae'r wyth amcan hyn yn darparu'r strwythur a'r fframwaith ar gyfer cynllunio gwaith y Cyngor o ran gwella gwasanaethau i bobl Conwy ac ar gyfer adrodd ar ei berfformiad. Mae'r Cyngor wedi nodi rhesymeg glir ar gyfer dewis y meysydd y mae'n canolbwyntio ar eu gwella, yn seiliedig ar ei berfformiad presennol, barn rhanddeiliaid a phartneriaid ac ymgynghori â dinasyddion.

90 O ran newid a gwella, mae gan y Cyngor ymagwedd glir sy'n strategol, yn gydlynol ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau mewn ymdrech i sicrhau bod y Cynllun Corfforaethol yn dylanwadu ar wella gwasanaethau ac yn cyflawni gwell canlyniadau. Mae'r Cyngor wedi datblygu ystadegau manwl ar lefel ward i lywio'i waith er mwyn deall y cyd-destunau daearyddol, demograffig, economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol allweddol y mae'n gweithredu ynddynt.

91 Mae gan arweinwyr gwleidyddol berchenogaeth a dealltwriaeth gadarn o flaenoriaethau'r Cyngor ac maent yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Mae arweinyddiaeth wleidyddol gref wedi cael effaith sylweddol ar lunio a gwella gwasanaethau amgylcheddol y Cyngor dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r lefel uchel o ymddiriedaeth a chydweithrediad rhwng cynghorwyr yn un o elfennau nodedig y Cyngor.

92 Mae gan uwch reolwyr y Cyngor weledigaeth glir o'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni. Mae cynghorwyr a staff o'r farn bod uwch reolwyr yn effeithiol iawn o ran hyrwyddo ymagwedd 'Tîm Conwy' ac o ran gosod y naws ar gyfer diwylliant ar draws y Cyngor sy'n canolbwyntio ar weithgarwch craidd y mae angen eu gwella. Mae uwch swyddogion yn dra gweledol a hygyrch. Drwy dreulio amser gydag amrywiaeth o

staff rheng flaen, mae'r Prif Weithredwr wedi cynyddu ei hygrededd a'i ddealltwriaeth o'r materion y mae'r rhai sy'n darparu gwasanaethau yn eu hwynebu bob dydd.

93 Dangosodd arolwg staff 2013, a ddenodd gyfradd ymateb uchel iawn, hyder eang yng ngallu uwch arweinwyr i ddarparu canolbwynt clir ar welliannau i wasanaethau ac o ran cyflawni targedau ariannol heriol ar gyfer gweddill y degawd. Gwnaeth sawl cynghorydd a holwyd o bob rhan o'r sbectrwm gwleidyddol fynegi eu hyder bod y Prif Weithredwr yn ymwybodol o'r materion allweddol yn y sefydliad a'r hyn sydd angen ei newid, ac roeddent yn glir ynghylch sut y mae'r newidiadau hynny yn cael eu gweithredu.

94 Mae 'Tîm Conwy' wedi ennyn ymdeimlad o falchder ymhlith staff. Cyfeiriodd y staff a holwyd gennym at ddiwylliant cryf lle maent yn teimlo'n atebol am berfformiad gwasanaeth. Roedd rhai aelodau o staff yn cydnabod yn agored brosiectau penodol sydd wedi wynebu anawsterau, neu lle roedd y broses o wella ansawdd y gwasanaeth wedi bod yn araf.

95 Fodd bynnag, roedd llawer o'r staff a holwyd yn cael anhawster i nodi problemau yn y Cyngor, hyd yn oed mewn meysydd lle mae uwch arweinwyr yn cydnabod bod angen gwella perfformiad. Mae'r ymdeimlad cryf o werthoedd cyffredin a theyrngarwch sy'n gyffredin ymhlith staff yn ased bwysig i'r Cyngor a daw hyd yn oed yn fwy gwerthfawr wrth i'r hinsawdd ariannol alw am wneud mwy a mwy o benderfyniadau anodd. Fodd bynnag, mae risg gynhenid y gall 'Tîm Conwy' hefyd greu hinsawdd lle nad oes digon o herio effeithiol.

96 Mae'r Cyngor wedi mynegi gweledigaeth a dealltwriaeth glir o'r manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithio mewn partneriaethau. Mae'r partneriaid allweddol a holwyd gennym yn gweld y Cyngor fel un sy'n ymrwymedig i weithio mewn partneriaeth, hyd yn oed mewn meysydd lle cafwyd tensiynau yn ddiweddar. Cyfeiriodd sawl partner yn gadarnhaol at ddealltwriaeth y Cyngor o'r amgylchedd cymdeithasol ac economaidd y mae'n gweithredu ynddo, a'i allu i gysylltu anghenion lleol yn glir â blaenoriaethau cenedlaethol megis mynd i'r afael ag effaith diwygiadau lles llywodraeth y DU.

## Mae rheolaeth gref dros berfformiad a rhaglenni yn sail i ymagwedd y Cyngor tuag at reoli gwelliannau ond nid yw egwyddorion rheoli prosiect bob amser yn cael eu defnyddio'n gyson

### Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth glir o'r hyn y mae'n ceisio ei gyflawni a ph'un a yw'n llwyddo ai peidio

97 Adroddwyd yn flaenorol bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio ar gyfer gwella 2013-14 o dan y Mesur a gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Cyhoeddodd y Cyngor ganlyniadau ei adolygiad blynyddol o'r Cynllun Corfforaethol ym mis Mai 2013. Mae'r Cynllun Gwella (y Cynllun) yn rhoi sylwadaeth glir ar nodau'r Cyngor ar gyfer pob un o'i amcanion gwella dros y pum mlynedd nesaf. Mae'n esbonio gweithgarwch cysylltiedig a gynlluniwyd yn ystod y cyfnod 2013-14 a'r mesurau y bydd y Cyngor yn eu defnyddio i werthuso llwyddiant. Mae'r Cynllun wedi'i ysgrifennu'n dda ac mae'n gryno, gan amlinellu'r hyn y

mae'r Cyngor am ei gyflawni a sut bydd yn mynd ati i wneud hynny. Mae'r rhesymeg sy'n sail i ddewis y Cyngor o amcanion gwella wedi'i hesbonio'n fyr ond yn glir a'i hategu gan ymgynghori ac ymchwil helaeth.

98 Mae'r Cyngor wedi dewis dros 70 o fesurau llwyddiant. Er bod mwyafrif y targedau a bennwyd gan y Cyngor ar gyfer 2013-14 yn uchelgeisiol, megis canran y gwastraff trefol a ailgylchir, ymddengys fod diffyg uchelgais mewn nifer bach o dargedau, gydag esboniad cyfyngedig yn y Cynllun o ran pam. Mae'r mesurau llwyddiant ar gyfer yr amcan gwella bod, 'pobl yng Nghonwy'n mewn tai diogel ac addas', er enghraifft, yn canolbwyntio ar atal digartrefedd. Roedd y targed a bennwyd ar gyfer 2013-14 yn is na'r hyn a gyflawnwyd gan y Cyngor yn 2012-13. Mae'r Cyngor felly yn cydnabod ei bod yn annhebygol y gall atal digartrefedd ar gyfer cyfran mor uchel o'i gleientiaid ag yn y gorffennol ond nid yw'n esbonio pam.

99 Mae'r Cyngor wedi sicrhau bod ei Gynllun Corfforaethol ei hun yn cyd-fynd yn glir â'r Cynllun Integredig Sengl ehangach, 'Un Conwy', sy'n cael ei oruchwylio gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Felly mae amcanion gwella'r Cyngor yn cynrychioli cyfraniad y cytunwyd arno'r Cyngor i gyflawni'r amcanion ehangach a nodir yn 'Un Conwy'. Felly mae mesurau yn y Cynllun Corfforaethol yn canolbwyntio ar y materion hynny y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt, yn hytrach nag ar fesurau poblogaeth ehangach y mae'r Cyngor yn un o nifer o gyfranwyr atynt.

100 Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol wedi datblygu fframwaith rheoli perfformiad ar y cyd cynhwysfawr sy'n nodi sut y bydd yn monitro'r gwaith o gyflawni 'Un Conwy'. Mae'r fframwaith yn diffinio sut bydd y Cyngor yn monitro perfformiad, rheoli data perfformiad, herio, craffu a datblygu cynllunio er mwyn cyflawni canlyniadau. Noda amserlen glir ar gyfer adolygiadau perfformiad partneriaeth, a chanllawiau byr ar sut y dylid cynnal yr adolygiadau hynny. Mae'r fframwaith yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol gyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n crynhoi'r effaith a gyflawnwyd. Yn ogystal, mae gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Partneriaethau'r Cyngor y rôl o graffu ar weithgareddau y Bwrdd mewn perthynas â Chonwy.

101 Fodd bynnag, nid yw rheoli perfformiad yn y Bwrdd Gwasanaeth Lleol yn gwbl effeithiol, yn rhannol oherwydd hyd agendâu'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol ac yn rhannol oherwydd bod adroddiadau perfformiad a gyflwynir i gyfarfodydd y Bwrdd yn canolbwyntio ar ormod o fesurau a gweithgareddau. O ganlyniad, mae'r Bwrdd yn cael trafferth neilltuo digon o amser i adolygu perfformiad yn ddigonol ac mae aelodau'n ei chael hi'n anodd meithrin dealltwriaeth drylwyr o pam nad yw mesurau sy'n perfformio'n wael ar y trywydd cywir a sicrwydd bod camau i fynd i'r afael â pherfformiad gwan. Mae partneriaid wedi cytuno nad yw rhai mesurau yn Un Conwy yn briodol neu nad oes data ar gael, sy'n gwneud rheoli perfformiad effeithiol yn anodd. Mae'r Cyngor wedi cydnabod hyn ac mae'n gweithio i ddatblygu mesurau llwyddiant mwy ystyrlon ar gyfer Un Conwy.

## Mae rheoli gwybodaeth yn ategu gwella ac mae'n helpu i flaenoriaethu amcanion corfforaethol

102 Yn gywir ddigon, mae'r Cyngor o'r farn bod gwybodaeth am berfformiad yn rhan annatod o reoli perfformiad a darparu gwasanaethau yn effeithiol. Mae wedi datblygu ymagweddau i wella o ran pennu targedau sy'n cael eu hategu'n dda gan wybodaeth reoli. Mae'r Cyngor wedi buddsoddi adnoddau yn system rheoli perfformiad Ffynnon, ac mae wedi defnyddio'r system hon yn effeithiol i ymgorffori ymagweddau rheoli perfformiad mewn gwasanaethau. Fodd bynnag, maen contract Ffynnon Llywodraeth Cymru yn dod i ben ym mis Mehefin 2014. Mae'r Cyngor yn bwriadu datblygu ymagwedd interim i reoli ei wybodaeth am berfformiad nes i ymagwedd newydd gael ei rhoi ar waith.

103 Mae uned ymchwil fach ond effeithiol yn cynorthwyo'r Cyngor drwy ddarparu amrywiaeth o ddata demograffig a data poblogaeth am y sir gyfan a hefyd fesul ward. Mae'r tîm gwybodaeth wedi cynyddu'n raddol amrywiaeth a chwmpas yr adroddiadau a gyflwynir ganddo. Mae'r wybodaeth a baratoir ganddo yn cael ei defnyddio'n dda i lywio'r gwaith o gynllunio gwasanaethau a helpu i nodi pwysau yn gymuned. Yn ogystal, mae'r uned ymchwil hefyd yn darparu adroddiadau ar themâu megis cyflogaeth a'r economi, tlodi ac amddifadedd. Mae'r trefniadau presennol ar gyfer darparu gwybodaeth reoli yn helpu i lywio blaenoriaethau'r Cyngor a phennu amcanion corfforaethol.

104 Mae'r Cyngor wedi datblygu cyfres gynhwysfawr o ddogfennau a chanllawiau ategol sy'n helpu i roi sicrwydd bod ei drefniadau rheoli perfformiad yn effeithiol. Mae'r dogfennau hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a, lle y bo'n briodol, cyflwynir newidiadau. Mae'r newidiadau hyn fel arfer yn cael eu llywio gan ymgynghori â staff. Ar y cyfan, mynegodd y staff a'r partneriaid a holwyd yn ystod yr asesiad corfforaethol farn gadarnhaol ar ymagwedd y Cyngor at reoli perfformiad.

## Ceir ymagwedd systematig at reoli prosiectau a rhaglenni ond nid yw'r ymagwedd hon bob amser yn cael ei dilyn yn gyson

105 Dros nifer o flynyddoedd, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu ymagwedd systematig at reoli prosiectau mawr ac o ran goruchwylio a chydlynu rhaglenni prosiectau. Mae Fframwaith Rheoli Prosiectau'r Cyngor yn ddogfen o safon, gynhwysfawr ac, o'i dilyn yn gywir, mae'n un o'r ffyrdd y gall y Cyngor ddiogelu ei hun rhag canlyniadau gwael. Pan nad yw'r fframwaith yn cael ei ddilyn yn gywir, fel y profwyd gyda rhai prosiectau ar raddfa fawr yn y gorffennol, mae risg y bydd y Cyngor yn gorwario ac yn wynebu oedi o ran prosiectau.

106 Er enghraifft, mae mabwysiadu ymagwedd ffurfiol at reoli prosiectau a rhaglenni wedi cyfrannu'n gadarnhaol at gyflawni'r gwaith diweddar i ailddatblygu Ysgol y Gogarth yn brydlon ac o fewn y gyllideb. Mae ymagwedd y Cyngor hefyd yn ei alluogi, pan fydd yn angenrheidiol, i benderfynu gohirio prosiectau pan fydd amgylchiadau'n newid.

107 Serch hynny, ceir enghreifftiau lle mae prosiectau wedi symud ymlaen y tu allan i'r system rheoli prosiectau ffurfiol. Er enghraifft, ym mis Rhagfyr 2013 nodwyd nad oedd y Cyngor wedi dilyn ei brosesau rheoli

prosiectau arferol o ran caffael Pier Victoria ym Mae Colwyn a bod rhai diffygion yn y broses. Canfu AGGCC nifer o achosion lle nad oedd amserlenni wedi'u cynnwys mewn cynlluniau gweithredu a phwysleisiwyd pwysigrwydd defnyddio cerrig milltir er mwyn gallu asesu perfformiad.

## Mae diwylliant y Cyngor a'i drefniadau llywodraethu yn hyrwyddo ymagwedd gydsyniol ac effeithlon tuag at wneud penderfyniadau, ond mae lle i gryfhau rhai agweddau ar y ffordd y mae pwyllgorau'n gweithredu

### Mae'r berthynas rhwng cynghorwyr a swyddogion yn adeiladol ac mae hyfforddiant, canllawiau a disgrifiadau rôl priodol yn sail iddynt

108 Mae cynghorwyr yn ymddwyn yn briodol ac ar y cyfan yn ceisio bod yn adeiladol mewn cyfarfodydd pwyllgor, hyd yn oed pan fyddant yn anghytuno â'i gilydd. Prin iawn fu'r achosion o dorri Cod Ymddygiad yr Aelodau dros y blynyddoedd diwethaf. Cafodd yr Ombwdsmon lai o gwynion yn ymwneud â Chonwy na chyfartaledd Cymru ar gyfer 2011-12 a 2012-13, ac, ym mhob achos, penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ag ymchwilio.

109 Disgwylir i bob cynghorydd fynd i sesiynau hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad ac mae'r Pwyllgor Safonau yn monitro eu presenoldeb. Yn briodol, gall cynghorwyr gymryd rhan mewn cyfarfodydd Cynllunio neu Drwyddedu ar ôl ymgymryd â hyfforddiant penodol yn unig. Mae'r Strategaeth Datblygu Aelodau wedi'i diwygio'n ddiweddar i ystyried Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Mae'r Cyngor yn ceisio darparu hyfforddiant a datblygu yn seiliedig ar anghenion ac ar y cyfan mae cynghorwyr yn gadarnhaol ynglŷn â'r hyfforddiant a ddarperir.

110 Yn ei gyfansoddiad ac mewn mannau eraill, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu cyfres o ganllawiau sy'n nodi'r disgwyliadau ar gyfer rolau allweddol. Mae'n diweddaru hyn ac mae wedi, er enghraifft, paratoi disgrifiad rôl ar gyfer y cadeirydd ac aelodau o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd cymharol newydd. Mae Canllaw defnyddiol i Drosolwg a Chraffu yn amlinellu rôl craffu a rôl swyddogion ac aelodau yn y broses.

### Mae'r broses o wneud penderfyniadau yn effeithlon ac wedi'i hadeiladu'n gryf ar gonsensws ond mae rhai agweddau ar y trefniadau yn tanseilio i ba raddau mae aelodau'r Cabinet yn cael eu dwyn i gyfrif

111 Mae'r Cabinet a'r Pedwar Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cyfarfod yn aml ac yn sicrhau bod eu rhaglenni gwaith yn cyd-fynd yn agos ac yn effeithiol. Mae gan bob pwyllgor flaenraglen waith wedi'i diffinio'n dda ac sy'n cael ei hadolygu ym mhob cyfarfod. Mae cynnwys agendâu yn cael ei reoli'n ofalus er mwyn sicrhau bod:

- penderfyniadau sy'n ofynnol er mwyn datblygu prosiectau yn cael eu cymryd mewn modd amserol;
- adroddiadau ar berfformiad y Cyngor yn cael eu hystyried ar adegau priodol; a
- materion polisi ac adroddiadau ar, er enghraifft, gynnydd partneriaethau y mae'r Cyngor yn ymwneud â hwy yn cael eu trafod yn rheolaidd.

112 Mae cyfran uchel o waith y pwyllgorau craffu ar ffurf ‘craffu cyn penderfynu’ lle mae pwyllgorau yn ystyried materion cyn iddynt gyrraedd y Cabinet ar gyfer penderfyniadau i’w cymryd. Mae’r ymagwedd hon yn helpu i sicrhau bod y penderfyniadau a wneir yn ystyried amrywiaeth eang o safbwyntiau gwleidyddol. Mae’r ymagwedd hefyd yn cyfrannu’n sylweddol at y ffaith mai yn anaml iawn y mae craffu yn ‘galw i mewn’ benderfyniadau’r Cabinet, a fyddai’n tarfu ar lif esmwyth busnes y Cyngor.

113 Mae ansawdd y papurau a gyflwynir i’r pwyllgor craffu ac i’r Cabinet yn dda ar y cyfan. Mae grŵp o uwch swyddogion yn adolygu papurau allweddol ymhell cyn iddynt ddod yn rhan o’r broses ddemocrataidd. Mae’r grŵp hwn, sy’n cwrdd ddwywaith y mis, hefyd yn helpu i sicrhau bod synergedd rhwng cynlluniau gwaith y Cyngor a’i amrywiol bwyllgorau. At hynny, mae gwaith helaeth i ymgysylltu â chynghorwyr drwy, er enghraifft, eu haelodaeth o fyrddau prosiectau a rhaglenni a’u cynnwys mewn gweithdai cyllideb ar y cyfan yn sicrhau bod yr argymhellion a gynhwysir ym mhapurau pwyllgorau yn debygol o gael cefnogaeth eang. I raddau helaeth mae hyn yn cyfrif am y ffaith bod pwyllgorau craffu ar y cyfan yn derbyn yr argymhellion a nodir ym mhapurau eu pwyllgorau.

114 Serch hynny, ceir enghreifftiau lle mae pwyllgorau craffu wedi addasu’r argymhellion a gynhwysir mewn papurau ac, mewn achosion unigol, gofynnwyd i bapurau gael eu hailddrafftio er mwyn eu gwneud yn fwy eglur. Mae lefel yr her ac ansawdd y drafodaeth mewn cyfarfodydd pwyllgorau craffu yn amrywio. Fodd bynnag, rydym wedi arsylwi ar nifer o gyfarfodydd a oedd yn cynnwys her gadarn a hyddysg i’r staff a oedd yn cyflwyno’r papurau.

115 Mae’r modd y cynhelir cyfarfodydd craffu a Chabinet yn gyson â’r diwylliant cydsyniol a cholegaidd sy’n bodoli ym mhob rhan o’r Cyngor. Mae aelodau a swyddogion yn gweithio’n dda gyda’i gilydd gyda’r nod o ddarparu Amcanion Gwella’r Cyngor er budd pobl Conwy. Serch hynny, mae rhai agweddau ar y trefniadau sy’n dueddol o bylu rolau a chyfrifoldebau penodol aelodau’r Cabinet ar y naill law a’r rhai sy’n gyfrifol am graffu ar y llaw arall. Yn benodol, mae pwyllgorau craffu yn dueddol o ddwyn swyddogion i gyfrif yn hytrach na’r aelod perthnasol o’r Cabinet. Er ei bod yn briodol bod pwyllgorau craffu’n gofyn cwestiynau i aelodau’r Cabinet yn ystod cyfarfodydd pwyllgor, weithiau bydd aelodau’r Cabinet yn cyfrannu’n rhy helaeth yn ystod cyfarfodydd pwyllgor craffu.

116 Mae rheolaeth effeithlon y Cyngor o agendâu craffu a’r Cabinet yn golygu bod y Cabinet yn aml yn gwneud penderfyniadau cyn bod cofnodion y craffu cyn penderfynu wedi’u cyhoeddi a’u cadarnhau. Rydym yn fodlon bod dulliau priodol ar waith i sicrhau bod y Cabinet yn ymwybodol o farn y pwyllgor craffu cyn gwneud penderfyniad. Fodd bynnag, nid yw cofnodion y Cabinet bob amser yn adlewyrchu’r argymhellion a gyflwynir gan y pwyllgor craffu ac ymateb y Cabinet i’r argymhellion hynny.

### Mae'r Pwyllgor Archwilio yn datblygu'n dda ond nid yw hyd yma'n ddigon systematig o ran rhoi sicrwydd iddo'i hun bod argymhellion mewn adroddiadau Archwilio Mewnol wedi'u gweithredu

117 Mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol a chanddo adnoddau priodol yn paratoi amrywiaeth a nifer dda o adroddiadau bob blwyddyn, ac mae'r cyfan ar gael i aelodau o'r Pwyllgor Craffu. Yn 2012, yn fuan ar ôl ffurfio'r Pwyllgor Archwilio presennol, nodwyd er bod gwaith ac adroddiadau'r Archwilio Mewnol yn dda, roedd cyfleoedd i wella effaith gadarnhaol ac amserol argymhellion. Argymhellwyd y dylai'r Cyngor 'adolygu ac adnewyddu'r rhaglen waith a'r papurau a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio'.

118 Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi ymateb i'r argymhelliad hwn ac mae'n datblygu'n dda o ran ei effeithiolrwydd a'i ddealltwriaeth o'i swyddogaeth yng nghyd-destun craffu. Fodd bynnag, erys adroddiadau dilynol allweddol gan Archwilio Mewnol sy'n dangos nas gweithredwyd ar argymhellion o adroddiadau blaenorol. Nid yw'r Pwyllgor Archwilio hyd yma yn ddigon systematig o ran sicrhau ei hun bod gwelliannau angenrheidiol yn digwydd.

### Mae gan y Cyngor record dda o ran ymgysylltu â'r cyhoedd ond prin fu ei lwyddiant o ran ennyn diddordeb y cyhoedd yn nhrafodion pwyllgorau

119 Un o wyth amcan gwella'r Cyngor yw bod, 'Pobl yng Nghonwy yn cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais'. Mae gan y Cyngor record da o lwyddo mewn nifer o agweddau ar ymgysylltu, gan ymgynghori'n helaeth ar lunio ei Gynllun Corfforaethol ac ymgysylltu'n dda â chymunedau, er enghraifft, o ran datblygu'r rhaglen moderneiddio ysgolion. Mae'r Cyngor hefyd wedi llofnodi siarter ymgysylltu Cyngor Tref a Chymuned ac wedi sefydlu Fforwm Cyngor Tref a Chymuned. Ar y cyfan, roedd y partneriaid a holwyd yn ystod yr asesiad corfforaethol yn gadarnhaol am hygyrchedd staff y Cyngor a'u parodrwydd i ymgysylltu.

120 Mae'r Cyngor wedi cydnabod mai cyfyngedig fu ei lwyddiant o ran denu diddordeb y cyhoedd yn nhrafodion ei bwyllgorau craffu, fel sy'n wir yn y rhan fwyaf o gynghorau. Mae rhai cynghorau wedi dechrau defnyddio cyfryngau cymdeithasol mewn ymdrech i hyrwyddo cyfarfodydd pwyllgorau penodol, ond mae Cyngor Conwy wedi bod yn gymharol araf i ymgorffori'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol yn y ffordd hon. At hynny, canfuwyd nad yw trefniadau eistedd yr aelodau mewn cyfarfodydd pwyllgor yn ddefnyddiol o ran helpu'r rhai sy'n arsylwi mewn cyfarfodydd i ddeall priod rolau'r aelodau a'r swyddogion sy'n bresennol. Yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi dechrau gwe-ddarlledu rhai o'i gyfarfodydd pwyllgor ac mae wedi cymeradwyo protocol ymgysylltu â'r cyhoedd ar gyfer trosolwg a chraffu sy'n caniatáu i ddinasyddion siarad mewn cyfarfodydd. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i werthuso effaith y datblygiadau hyn.

121 Fel sy'n wir ym mhob cyngor, mae rhai eitemau wedi'u heithrio rhag eu trafod ym mhresenoldeb y wasg a'r cyhoedd. Nid oes gennym dystiolaeth i awgrymu bod y Cyngor yn gwneud mwy o ddefnydd o eithriadau o'r fath nag sy'n arferol, na bod y Cyngor yn trafod materion yn breifat yn ddiangen. Mae ein hadroddiad ar broses y Cyngor o gaffael Pier Bae Colwyn, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2013, yn dod i'r casgliad bod y Cyngor wedi dilyn y broses gywir ar gyfer sicrhau bod gwybodaeth sensitif wedi'i heithrio rhag cael ei chyhoeddi yng nghofnodion y Cyngor nac yn gyhoeddus. Fodd bynnag, cynigiodd yr adroddiad hefyd y dylai'r Cyngor ystyried cofnodi esboniad manylach o ran pam mae eitemau wedi cael eu heithrio. Rydym eisoes wedi dechrau gweld mwy o fanylion yn cael eu cyhoeddi am y rhesymau dros eithrio eitemau agenda newydd.

## Mae'r Cyngor wedi defnyddio ei adnoddau yn dda hyd yma ond mae'r hinsawdd ariannol lymach bellach yn galw am ymagwedd tymor hwy, gorfforaethol tuag at gynllunio

Mae proses cynllunio ariannol y Cyngor wedi'i wasanaethu'n dda hyd yma ond mae heriau sylweddol i ddod o ran trawsnewid gwasanaethau er mwyn iddynt fod yn gynaliadwy yng nghyd-destun yr hinsawdd ariannol bresennol

**Mae proses cynllunio ariannol y Cyngor wedi'i wasanaethau'n dda hyd yma**

122 Tan yn ddiweddar, mae cynllunio ariannol y Cyngor wedi canolbwyntio'n gryf ar y flwyddyn i ddod, yn hytrach nag ar amserlen hwy. Bu'r ymagwedd hon yn effeithiol hyd yma; mae Tîm Cyllid y Cyngor wedi datblygu ymagwedd flynyddol systematig at bennu ei gyllideb sy'n cynnwys rheolwyr ac aelodau ar gam cynnar, gan sicrhau bod penderfyniadau am doriadau yn gyllideb a meysydd o dwf mewn gwariant wedi cael eu hystyried yn dda. Mae'r ymagwedd hon wedi galluogi'r Cyngor i gyflawni cyllidebau cytbwys, gwneud arbedion effeithlonrwydd a chadw rheolaeth ar lefel y cronfeydd wrth gefn.

123 Mae'r Cyngor yn falch o'r ffaith bod lefelau ei Dreth Gyngor ymhlith yr isaf yng Nghymru. At hynny, hyd yma mae wedi mynd i'r afael â'r lleihad graddol yng nghyllid Llywodraeth Cymru heb droi at ostyngiadau gwasanaeth sylweddol a heb ddiswyddiadau gorfodol ymhlith staff. Hyd yma, nid yw trigolion Conwy wedi gweld llawer o effaith negyddol ar y gwasanaethau maent yn eu derbyn o ganlyniad i galedi cynyddol yn y sector

cyhoeddus.  Yn y cyfamser, mae arolwg staff y Cyngor yn nodi bod gweithwyr yn parhau i fod yn llawn cymhelliant ac yn falch o'u cyfraniadau.

124 Gydag ychydig iawn o eithriadau, mae'r gwasanaethau wedi cyflawni'r arbedion angenrheidiol i sicrhau gostyngiadau yn y gyllideb a gynlluniwyd gan y Cyngor. Er mwyn gwneud hynny, maent wedi defnyddio amrywiaeth o ddulliau; er bod llawer wedi cynnwys ailstrwythuro mewnol i leihau lefelau staffio, cafwyd hefyd arbedion cost eraill fel newidiadau mewn trefniadau teithio a chyllid cyfalaf. Ceir hefyd enghreifftiau unigol o adrannau yn moderneiddio eu harferion gwaith i sicrhau arbedion. Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi cynyddu ei incwm o ffioedd a thaliadau. Mae'r Cyngor wedi adrodd iddo sicrhau arbedion o tua £24 miliwn yn ystod y pum mlynedd er 2009-10.

**Mae'r defnydd o gronfeydd wrth gefn i fantoli cyllideb 2014-15 yn creu amser ar gyfer rhagor o gynllunio ond mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw hwn yn ateb cynaliadwy ar gyfer y dyfodol**


125 Yn ystod dechrau 2013, datblygodd y Cyngor fframwaith ariannol tymor canolig. Er nad yw'n gynllun ariannol tymor canolig, dechreuodd y fframwaith hwn adlewyrchu amrywiaeth o sefyllfaoedd posibl ar gyfer setliadau Grant Cynnal Refeniw Llywodraeth Cymru ac asesiad o'r hyn y gallai'r bwlch ariannol fod o dan bob un o'r sefyllfaoedd hynny. Ar y cam hwnnw, nid oedd y fframwaith yn cynnwys camau gweithredu penodol i wneud arbedion cost, roedd yn galluogi i wasanaethau ddechrau cynllunio ar gyfer arbedion. Roedd hyn yn ddefnyddiol yn nes ymlaen yn 2013.

126 Yn seiliedig ar setliad dangosol Llywodraeth Cymru, y sefyllfa waethaf yr oedd y Cyngor yn ei hystyried ar gyfer 2014-15 yn ystod haf 2013 oedd diffyg o tua £6.8 miliwn yn ei gyllid refeniw. Roedd arwyddion rhybudd yn dod i'r amlwg y byddai swm y setliad yn sylweddol waeth na'r sefyllfa waethaf, ond penderfynodd y Cyngor beidio â chynllunio ar gyfer targedau arbedion uwch nes iddo gael mwy o sicrwydd. Gadawodd y setliad terfynol ar gyfer Conwy, a gyhoeddwyd yn ystod hydref 2013, y Cyngor gyda diffyg o tuag £14.6 miliwn ar gyfer 2014-15. Fodd bynnag, roedd y cynllunio cynnar y cyfeiriwyd ato uchod eisoes wedi dechrau cael effaith ar y targed, felly roedd y gwasanaethau wedi gwneud cynnydd cychwynnol da o ran cynllunio ar gyfer rhagor o ostyngiadau yn y gyllideb.

127 Wrth gytuno ar ei gyllideb ar gyfer 2014-15, mae'r Cyngor wedi cynnwys cynnydd o bump y cant yn y Dreth Gyngor, wedi cynllunio gostyngiad o tua £1.5 miliwn o ran cronfeydd wedi'u clustnodi, a newidiadau i gynlluniau adnoddau cyfalaf sy'n caniatáu budd o £2.5 miliwn i'r gyllideb refeniw. Mae'r cynnydd yn y Dreth Gyngor ymhlith yr uchaf yng Nghymru, ond, oherwydd y sylfaen isel yn hanesyddol, mae lefelau'r Dreth Gyngor yng Nghonwy yn gymharol isel o hyd.

128 Mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw'r defnydd o gronfeydd wrth gefn i gydbwyso ei gyllideb 2014-15 yn ateb hirdymor i'r heriau ariannol mae'n eu hwynebu. Mae'r defnydd o gronfeydd wrth gefn yn ddull y mae'r Cyngor wedi'i ddefnyddio i greu amser iddo'i hun i ddod o hyd i atebion cynaliadwy ar gyfer 2015-16 a thu hwnt i hynny. Dengys Arddangosyn 1 lefel y cronfeydd wrth gefn ar 31 Mawrth bob blwyddyn rhwng 2009 a 2013. Dengys fod balans Cronfa Gyffredinol y Cyngor wedi parhau'n weddol sefydlog ar y lefel isel o tua £3 miliwn. Dengys ein dadansoddiad fod cronfeydd wrth gefn cyffredinol y Cyngor ar ddiwedd 2012-13 yn cynrychioli dim ond 1.1 y cant o'r gwariant gros, y gyfran isaf o bob cyngor yng Nghymru. Gwelwyd cynnydd mewn cronfeydd eraill wedi'u clustnodi yn 2009-10 a 2010-11, ond gostyngiad yn 2011-12 a 2012-13, ond roeddent yn parhau i fod uwchlaw ffigur 2009. Roedd cronfeydd a glustnodwyd ar 31 Mawrth 2013 yn cynrychioli 8.5 y cant o wariant gros, sy'n sylweddol is na chyfartaledd Cymru, sef 11.3 y cant.

Arddangosyn 1 – Cronfeydd wrth gefn a gadwyd gan CBS Conwy rhwng 31 Mawrth 2009 a 31 Mawrth 2013[3]




3 Nid yw'r cronfeydd wrth gefn a ddangosir yn Arddangosyn 1 yn cynnwys y cronfeydd werth gefn Menter Cyllid Preifat, sy'n gronfa wrth gefn wedi'i chyfrifo nad yw ar gael i'w defnyddio ar gyfer cefnogi gwariannau refeniw eraill.

**Mae'r Cyngor wedi dechrau dwyn ynghyd ei gynlluniau i gyflawni rhagor o effeithlonrwydd ond mae'n wynebu her sylweddol i gyflawni prosiectau trawsnewidiol yn yr amserlen ofynnol**

129 Sefydlodd y Cyngor Fwrdd Rhaglen Trawsnewid Busnes yn ystod 2012-13 i oruchwylio amrywiaeth o brosiectau wedi'u cynllunio i gyflawni rhagor o effeithlonrwydd, fel cyflwyno'r system rheoli dogfennau electronig ac anfonebu electronig ac adolygiad o weithio hyblyg. Mae rhaglenni moderneiddio gwasanaethau ar waith i adolygu'r gwasanaethau cymdeithasol a'r gwaith diweddar i integreiddio'r gwasanaethau amgylcheddol, priffyrdd ac eiddo i sefydlu'r gwasanaeth Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau newydd. Mae Bwrdd Prosiect hefyd wedi'i sefydlu i benderfynu ar y ffordd orau o ddatrys anghenion swyddfeydd y Cyngor gan gynnwys pan fydd y brydles ar safle Ffordd Dinerth yn dod i ben yn y dyfodol agos.

130 Mae prosiectau trawsnewidiol fel y rhain yn debygol o arwain at effeithlonrwydd. Fodd bynnag, adeg ein hasesiad corfforaethol ym mis Tachwedd 2013, nid oedd y Cyngor wedi meintioli'r arbedion ariannol roedd yn disgwyl eu gwneud. Er gwaethaf ein hargymhellion yn y gorffennol y dylai'r Cyngor baratoi strategaeth ariannol tymor canolig sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Corfforaethol ac yn ei ategu, roedd y Cyngor yn amharod i wneud hynny ar y pryd. Dadleuodd yr uwch swyddogion fod cynllunio ariannol manwl ar gyfer y dyfodol o werth cyfyngedig oherwydd:

- prin yw'r sicrwydd tymor canolig ynghylch maint ffynhonnell incwm fwyaf y Cyngor, y Grant Cynnal Refeniw; a
- mae amcangyfrifon o lefel yr arbedion sy'n debygol o gronni o brosiectau trawsnewidiol ar raddfa fawr yn sail annibynadwy ar gyfer cynllunio cadarn.

131 Dywedodd swyddogion o lawer o wasanaethau wrthym eu bod yn teimlo eu bod wedi disbyddu'r rhan fwyaf o'r posibiliadau o ran yr ymagwedd torri costau at arbedion. Fodd bynnag, adeg ein hasesiad corfforaethol, nid oedd mentrau trawsnewidiol y Cyngor wedi'u dwyn ynghyd mewn cynllun cydlynol wedi'i gostio. At hynny, mae llawer o'r gwaith sydd ynghlwm wrth y prosiectau hyn yn gymhleth ac yn cymryd amser, gyda rhai'n galw am ymgynghori helaeth â'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill. Felly, mae'n bosibl na fydd yr arbedion llawn o'r prosiectau hyn ar gael i'w cynnwys yng nghyllideb 2015-16.

132 Ers ein hasesiad corfforaethol, mae'r Cyngor wedi paratoi Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2015-16 i 2017-18 fel rhan o'r papurau cyllideb ar gyfer 2014-15. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys amcangyfrifon o'r arbedion y gellid eu cyflawni o'r mentrau amrywiol sy'n mynd rhagddynt. Wrth edrych ar gynllunio ariannol yn y tymor hwy, mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd angen iddo ddod o hyd i gyfanswm o £29.5 miliwn o incwm ychwanegol dros y tair blynedd o 2015-16 ymlaen. Disgwylir i tua £14.9 miliwn ddod o'r rhaglenni trawsnewid, gan adael £14.6 miliwn yn rhagor i ddod o gyfuniad o arbedion costau eraill a chynnydd yn y Dreth Gyngor yn y dyfodol.

133 Hyd yn oed gydag effaith y gwaith trawsnewidiol hysbys, bydd y Cyngor yn wynebu diffyg sylweddol yn 2015-16 ac ar ôl hynny. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn adlewyrchu'r ffaith y bydd angen i'r Cyngor wneud penderfyniadau anodd a bod angen i'r broses ddemocrataidd fynd i'r afael â'r diffygion o ran adnoddau sy'n dod i'r amlwg drwy adolygu'n feirniadol y lefel bresennol o ddarpariaeth gwasanaeth a chynorthwyo ffyrdd y gall rheoli'r galw leihau gwariant naill ai'n uniongyrchol neu drwy fesurau ataliol. Rydym yn cytuno â'r dadansoddiad hwnnw ac yn annog y Cyngor i weithio tuag at y nodau hyn oherwydd efallai y bydd rhai arbedion yn cymryd amser hir i'w gweithredu'n llwyddiannus ac yn gynaliadwy.

**Mae'r trefniadau contractio a chaffael yn gwella**

134 Yn ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol 2012-13 cydnabu'r Cyngor fod materion wedi codi yn y gorffennol o ran defnyddio gweithdrefnau contractio a chaffael y Cyngor. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hefyd yn nodi nad oedd tri o'r argymhellion yn adroddiad 2012 yr archwilydd ar Gontractio a Chaffael wedi'u gweithredu'n llawn. Mae adroddiad dilynol yr archwilydd ym mis Hydref 2013 yn dod i'r casgliad bod y Cyngor mewn sefyllfa well i reoli ei gontractau nag o'r blaen. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r argymhellion 'ar y gweill' o hyd a bydd yn cymryd amser i'r holl newidiadau gael eu hymgorffori'n llawn yn y ffordd mae pobl yn gweithio.

Mae gwasanaethau'n cael eu cefnogi'n dda i reoli eu staff ond mae lle i wella effaith strategol y gwasanaeth Adnoddau Dynol o ran cyflymu'r broses o roi newidiadau ar waith

135 Mae gan y Cyngor dîm Adnoddau Dynol corfforaethol wedi'i sefydlu'n dda a phrofiadol sy'n cynnwys staff Adnoddau Dynol a gweinyddwyr cymwys. Mae'r tîm yn cael budd o arweinyddiaeth broffesiynol gref ac mae'n cael ei gefnogi'n dda gan uwch arweinwyr. Mae'r staff yn nodi lefel uchel o foddhad ag ansawdd y gwasanaeth Adnoddau Dynol maent yn ei dderbyn. Defnyddir y gwasanaeth Adnoddau Dynol yn hyblyg er mwyn cynorthwyo gwasanaethau sy'n newid yn sylweddol.

136 Mae amrywiaeth priodol o bolisïau adnoddau dynol ar waith ac ar y cyfan maent yn hygyrch i staff. Fodd bynnag, nid oes digon o sicrwydd yn y Cyngor ynghylch i ba raddau mae gwasanaethau'n cydymffurfio â'r polisïau hyn. Ar adeg ein hasesiad corfforaethol prin fu'r camau gweithredu, er enghraifft, mewn ymateb i adroddiad Archwilio Mewnol a nododd fod cydymffurfio amrywiol â pholisi recriwtio, gydag enghreifftiau o ffeiliau personol heb eirdaon a thystiolaeth o gymwysterau. Mae diffyg sicrwydd mewn materion o'r fath yn golygu bod y Cyngor yn agored i risg.

137 Mae'r Cyngor wedi datblygu diwrnod sefydlu adeiladol a deniadol i ddechreuwyr newydd. Mae'r ymagwedd yn annog staff i ganolbwyntio ar flaenoriaethau'r Cyngor o'r cychwyn drwy ystyried sut mae eu gwaith yn cyfrannu at gyflawni Cynllun Gwella'r Cyngor. Ceir cymorth cryf i hyfforddi staff a thystiolaeth glir o ddatblygiad a dilyniant mewnol staff. Ceir llawer o gyfleoedd i staff sy'n mynegi diddordeb mewn datblygu

sgiliau drwy gael eu cyfethol ar brosiectau corfforaethol neu brosiectau sy'n seiliedig ar wasanaethau. Mae'r fenter 'Gwella Conwy' a mentrau tebyg mewn blynyddoedd blaenorol yn enghreifftiau da o'r Cyngor yn datblygu staff iau. Yn ystod 2013, gweithiodd grwpiau ar themâu a ddewiswyd a chynnig syniadau arloesol, ac mae rhai o'r rhain wedi'u gweithredu ers hynny. O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi, er enghraifft, cyhoeddi'r 'Cerdyn Conwy' i breswylwyr, gan roi hawl iddynt gael mynediad i atyniadau lleol am bris gostyngol.

138 Mae'r Cyngor yn cynnig amrywiaeth helaeth o gyfleoedd hyfforddi a datblygu i'r staff a cheir llu o enghreifftiau o staff mewnol yn camu ymlaen yn eu gyrfa. Am nifer o flynyddoedd, mae'r Cyngor wedi bod yn ceisio gwella cyfran y staff sy'n cwblhau Adolygiadau Datblygu Personol blynyddol. Mae newidiadau diweddar i ddogfennaeth yr Adolygiad Datblygu Personol, y mae staff yn ei gefnogi, yn ddefnyddiol o ran gwneud yn fwy eglur y cysylltiad rhwng amcanion personol a blaenoriaethau corfforaethol a gwasanaeth.

139 Yn strategol, mae gan y gwasanaeth adnoddau dynol rôl hollbwysig i'w chwarae yn y broses o foderneiddio rhgor ar y Cyngor ac o ran galluogi'r Cyngor i reoli ei staff yn fwy effeithiol ac effeithlon. Mae absenoldeb oherwydd salwch yn cael ei reoli'n weithredol, ac mae'n parhau'n flaenoriaeth barhaus ym mhob rhan o'r Cyngor. Dengys y wybodaeth ddiweddaraf fod cyfraddau absenoldeb ychydig yn well na'r cyfartaledd i gynghorau ledled Cymru. Mae trefniadau rheoli swyddi gwag gweithredol yn gweithio'n dda; mae'r Cyngor yn parhau i benodi i swyddi gwag pan fo achos busnes cadarn dros wneud hynny.

140 Rydym wedi cyfeirio uchod at effeithiolrwydd y cymorth y mae'r gwasanaeth adnoddau dynol yn ei ddarparu i'w gwsmeriaid mewn adrannau eraill ar draws y Cyngor. Fodd bynnag, adeg ein hasesiad corfforaethol, canfuwyd bod lle i wella effaith strategol y gwasanaeth. Yn arbennig, canfuwyd y canlynol:

- nid oedd y Strategaeth AD a'r cynlluniau gweithredu cysylltiedig yn ddigon cadarn i ddarparu llwybr clir i wella'r broses o reoli pobl ym mhob rhan o'r Cyngor;
- mae cynllunio'r gweithlu yn digwydd yn y meysydd gwasanaeth hynny sy'n mynd drwy newid sylweddol yn unig; a
- prin oedd y brys o ran ystyried moderneiddio arferion gwaith yn ehangach nag y gwneir ar hyn o bryd.

### Mae trefniadau rheoli asedau gweithredol yn ddigonol, ond nid yw'r ymagwedd strategol at reoli asedau yn gadarn hyd yma ac mae diffyg gallu ac adnoddau wedi oedi gweithredu rhai polisïau allweddol

141 Mae'r Cyngor wedi cydnabod y cyfraniad y gall rheoli asedau effeithiol ei wneud i'r agenda gwella ac effeithlonrwydd. Er mwyn hyrwyddo rheoli asedau fel adnodd corfforaethol allweddol a chryfhau ei gysylltiadau â chynllunio ariannol, mae'r Cyngor wedi diwygio'r trefniadau adrodd yn ddiweddar fel bod y Prisiwr Sirol a Rheolwr Asedau bellach yn adrodd yn uniongyrchol i'r Cyfarwyddwr Strategol, Cyllid ac Effeithlonrwydd. Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd yr ymarfer ailstrwythuro yn codi proffil mewnol rheoli asedau ac yn cyfrannu at wneud penderfyniadau mwy effeithiol drwy, er enghraifft, wneud y berthynas rhwng y

rhaglen gwaredu asedau a'r rhaglen gyfalaf yn fwy tryloyw.

142 Mae gweledigaeth glir ac ymdeimlad o ddiben ar gyfer rheoli asedau bellach ar waith, er y cafwyd o oedi o ran cwblhau'r seilwaith polisi a gynlluniwyd sydd ei angen i ategu'r weledigaeth. Mae trefniadau gwneud penderfyniadau strategol ar gyfer rheoli asedau wedi bod yn y cyfnod pontio am dros flwyddyn. Fodd bynnag, mae'r Cyngor bellach yn dechrau gweithredu'r trefniadau gweithredol a rheoli strategol newydd a gyflwynwyd i aelodau etholedig ar ddiwedd 2013, dros flwyddyn yn ddiweddarach na'r hyn a fwriadwyd yn wreiddiol.

143 Mae blwyddyn gyntaf y rhaglen adolygu asedau gwasanaeth pum mlynedd bellach wedi'i chwblhau ac mae'r ail flwyddyn o adolygiadau'n mynd rhagddi'n foddhaol. Mae disgwyl i asedau tir ac eiddo'r Cyngor sy'n cynhyrchu incwm gael eu hadolygu rhwng 2014-15 a 2016-17, ac, yn y cyfamser, mae'r Cyngor yn ystyried cyfleoedd i gael gwared ar asedau yn ystod yr ymarfer prisio asedau blynyddol.

144 Mae'r Cyngor yn mynd ati'n weithredol i ffactorio materion cynaliadwyedd yn ei benderfyniadau i gaffael, gwaredu a buddsoddi asedau. Er enghraifft, mae'n sicrhau bod ysgolion newydd yn adlewyrchu arfer da cynaliadwyedd ac mae'n adolygu cynaliadwyedd a gwerth strategol hirdymor safleoedd wrth ystyried gwaredu. Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol i sicrhau effaith gadarnhaol fwyaf ei asedau. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn nodi asedau sy'n eiddo i'r cyngor sy'n addas ar gyfer eu hailddatblygu a allai, mewn cydweithrediad â landlord cymdeithasol cofrestredig, ddarparu tai fforddiadwy ychwanegol.

145 Mae problemau o ran gallu ac adnoddau a chyfyngiadau cyllidebol wedi effeithio'n andwyol ar allu'r Cyngor i reoli ei asedau eiddo. Bu cynnydd cyfyngedig o ran gweithredu'r polisi cynnal a chadw a gynlluniwyd ac mae'r Cyngor yn cydnabod bod ôl-groniad sylweddol o atgyweiriadau yn y stoc swyddfa yn adlewyrchu nifer o flynyddoedd o fuddsoddi annigonol. Mae rhai o fân-ddaliadau â thenantiaid y Cyngor hefyd wedi bod heb fuddsoddiad cyfalaf digonol i gydymffurfio â thelerau tenantiaeth ac i ghynnal gwerth yr asedau. Tynnwyd sylw at adolygiad o ystâd fferm y Cyngor yn 2010 yn wreiddiol ond nid yw wedi'i gwblhau hyd yma.

146 Hyd yma, mae penderfyniadau o ran rheoli asedau yn dueddol o gael eu hysgogi gan agendâu gweithredol megis prydlesi'n dod i ben ac ymrwymiadau atgyweirio yn hytrach na strategaethau'r gweithlu. Fodd bynnag, mae arwyddion bod cynllunio'r gweithlu yn dechrau cael mwy o ddylanwad ar ymagwedd y Cyngor at reoli asedau. Blaenoriaeth tymor byr y Cyngor yw sicrhau swyddfeydd amgen i safle Ffordd Dinerth. Mae'r flaenoriaeth hon hefyd wedi dod i'r amlwg oherwydd bod y brydles bresennol yn dod i ben yn 2016. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn bwriadu cefnogi trefniadau gweithio hyblyg fel rhan o'i ateb, ac yn ddiweddar prynodd adeilad mewn ardal adfywio strategol allweddol ym Mae Colwyn. Mae'n datblygu cynlluniau i ailwampio'r adeilad hwn yn gynhwysfawr, wedi'i gyllido drwy drefniant gwerthu a phrydlesu'n ôl gyda buddsoddwr yn y sector preifat. Mae'r ymagwedd arloesol hon yn osgoi'r angen i rwymo cyfalaf sylweddol ac mae'n arfer sy'n cael ei fabwysiadu'n eang yn y sector eiddo masnachol.

147 Dengys y Cyngor ddealltwriaeth dda o risgiau posibl yr ymagwedd hon ac o'r farn y gellir cyfiawnhau prydles hir ar adeilad newydd, wedi'i gynllunio at y diben oherwydd bydd angen parhaus am swyddfeydd i staff yn yr ardal, beth bynnag fydd y trefniadau i ad-drefnu llywodraeth leol yn y dyfodol. Nid yw'r Cyngor hyd yma wedi ymrwymo ei hun i unrhyw drefniadau ac mae'n paratoi dadansoddiad manwl o opsiynau er mwyn sicrhau ei hun bod yr opsiwn a ffefrir yn ystyried y risgiau cysylltiedig yn llawn.

## Mae staff yn derbyn cymorth TGCh effeithiol, ond mae rhagor o botensial i hyrwyddo'r defnydd ehangach o dechnoleg i greu effeithlonrwydd ym mhob rhan o'r Cyngor

148 Mae gan y gwasanaeth TGCh hanes hir a chryf o ddiwallu anghenion defnyddwyr. Mae'r gwasanaeth wedi perfformio'n dda yn gyson mewn arolygon boddhad cwsmeriaid ac mewn meincnodi cenedlaethol. Mae'r Gymdeithas Rheoli Technoleg Gwybodaeth wedi cydnabod bod y gwasanaeth a gwefan y Cyngor yn cynrychioli arfer da. Yn 2013, cafodd gwasanaeth TGCh y Cyngor hefyd ei gynnwys ar y rhestr fer yn rownd derfynol Gwobrau Cymdeithas Cyfrifiaduron Prydain.

149 Yn ogystal, mae gan ddefnyddwyr y gwasanaeth yn y Cyngor barch mawr tuag at y gwasanaeth, ac mae'n ymatebol o ran cynorthwyo eu hanghenion technoleg. Er enghraifft, mae'r gwasanaeth wedi cynorthwyo cyflwyno cyfrifiaduron tabled i gynghorwyr ac uwch reolwyr. Mae'r penderfyniad i symud i gyfrifiaduron tabled wedi'i groesawu gan y rhan fwyaf o ddefnyddwyr ac mae llwyddiant y pontio wedi cryfhau cefnogaeth yr arweinwyr i ddatblygu technoleg a manteisio arno ymhellach.

150 Mae'r achosion busnes dros ddatblygiadau TGCh yn cynnwys dadleuon da ac maent yn gynhwysfawr. Maent yn ystyried amrywiaeth o opsiynau wedi'u costio ac yn cynnwys argymhellion clir yn seiliedig ar fod yn addas i fusnes, risgiau, costau, gofynion adnoddau ac arbedion posibl. Mae'r cynigion diweddar ar gyfer datblygu achos busnes 'pecyn cymwysiadau swyddfa' yn enghraifft o hyn, a dylai alluogi'r Cyngor i gael ymagwedd fwy hyblyg a all wrthsefyll heriau'r dyfodol o ran rheoli pecynnau bwrdd gwaith.

151 Mae'r gwasanaeth TGCh yn ymgynghori'n dda â gwasanaethau eraill o ran datblygu ei strategaeth. Mae'r ymagwedd hon yn helpu i ddatblygu perchnogaeth o'r strategaeth ym mhob rhan o'r Cyngor. Mae gan y gwasanaeth TGCh record dda o fonitro cyflawni'r strategaeth, ac mae'n gwerthuso cwblhau'r camau gweithredu a gynlluniwyd a'u llwyddiant. Fodd bynnag, nid yw'r ymagwedd hon a ysgogir gan gwsmeriaid yn integreiddio'r defnydd o dechnoleg cystal ag y gallai ag ailgynllunio prosesau busnes, cynllunio'r gweithlu a rheoli ystâd swyddfeydd y Cyngor. Yn absenoldeb ymagwedd fwy integredig, mae risg na fydd y Cyngor yn:

- nodi'n gorfforaethol yr adnoddau sy'n ofynnol i gynorthwyo newid a thrawsnewid, gan gyfyngu ar gyflymder newid ac effeithiolrwydd o ran gweithredu technoleg; a
- sicrhau'r effeithlonrwydd mwyaf posibl drwy fanteisio i'r eithaf ar dechnoleg.

## Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth drylwyr o gostau a manteision ei waith partneriaeth ond mae rhai o'r trefniadau yn gymhleth i'r graddau eu bod yn ddi-fudd

152 Mae partneriaid yn canmol parodrwydd ac ymrwymiad uwch swyddogion ac aelodau'r Cyngor i gydweithio. Mae'r berthynas â phartneriaid ar draws amrywiaeth o sectorau yn gryf.

153 Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o raddau ei gydweithio a phartneriaethau. Mae wedi datblygu cronfa ddata fanwl a chynhwysfawr sy'n rhestru pob partneriaeth neu gydweithrediad y mae'n rhan ohono. Mae gwybodaeth yn y gronfa ddata wedi galluogi'r Cyngor i wneud penderfyniadau hyddysg am gynlluniau ar gyfer y dyfodol a rheoli perfformiad ynglŷn â phartneriaethau unigol.

154 Er mwyn poblogi'r gronfa ddata gydweithio a deall y trefniadau partneriaeth sydd ganddi yn well, mae'r Cyngor wedi cynnal adolygiad ôl-weithredol o'i gydweithrediadau a'i bartneriaethau presennol. Gyda'i bartneriaid ar y Bwrdd Gwasanaeth Lleol, mae wedi datblygu pecyn cymorth llywodraethu cynhwysfawr i'w ddefnyddio ym mhob achos arwyddocaol o gydweithio. Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys:

- manylion am y broses i'w dilyn er mwyn asesu manteision y cydweithio megis datblygu achos busnes, cytuno ar gytundeb partneriaeth a'r hyn i'w ystyried yn y cytundeb hwnnw;
- dulliau i asesu datblygu'r bartneriaeth; a
- sut i adael trefniant.

155 Mae'r cyngor yn cymryd camau gweithredu i sicrhau bod ei bartneriaethau yn fwy cadarn ac yn gynaliadwy. Mae'r pecyn cymorth llywodraethu yn helpu'r Cyngor i sicrhau bod ei bartneriaethau yn cael eu deall, eu hadolygu a bod newidiadau yn cael eu gwneud lle bo angen. Mae wedi datblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â meysydd datblygu a nodwyd yn ystod yr adolygiad o drefniadau cydweithio, megis diffyg strategaeth ymadael neu drefniadau llywodraethu aneglur.

156 Mae'r trefniadau rheoli perfformiad ar gyfer cydweithio wedi'u sefydlu'n dda. Mae gan y Cyngor bwyllgor trosolwg a chraffu penodedig ar gyfer partneriaethau sy'n cynnwys aelodau cyfetholedig o asiantaethau partner amrywiol megis y Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol, y Gwasanaeth Tân, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r GIG. Mae hyn yn galluogi ystyried safbwyntiau ehangach wrth wneud argymhellion. Mae blaenraglen y pwyllgor yn sicrhau ei fod yn cael diweddariadau rheolaidd am brif feysydd gweithgarwch cydweithio'r Cyngor.

157 Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y cyd wedi bod yn fforwm defnyddiol i bartneriaid feithrin dealltwriaeth well o flaenoriaethau sefydliadol ei gilydd ac, yn ei dro, annog mwy i ymrwymo i fentrau. Er enghraifft, mae'r Bwrdd wedi hwyluso rhannu gwybodaeth rhwng partneriaid yn well er mwyn targedu gosod larymau mwg yng nghartrefi pobl agored i niwed. Mae'r nifer fawr o larymau mwg a osodwyd yn yr ardal wedi cyfrannu at leihad sylweddol yn nifer y tanau mewn cartrefi yng Ngogledd Cymru er 2001. Mewn menter arall, mae staff rheng flaen gwasanaethau cyhoeddus

megis swyddogion yr heddlu wedi'u hyfforddi i ddarparu cyngor ar fudd-daliadau lles neu gyfeirio pobl ato, gan gynyddu mynediad i wybodaeth o'r fath i bobl y mae newidiadau i'r system les wedi effeithio arnynt.

158 Mae'r Cyngor yn dysgu gwersi o achosion aflwyddiannus o gydweithio yn y gorffennol. Er enghraifft, ni wnaeth cydweithio â chyngor cyfagos i ddarparu gwasanaethau cludiant rhwng y cartref a'r ysgol gyflawni'r manteision yr oedd y Cyngor yn eu disgwyl. Sefydlodd y Cyngor grŵp gorchwyl a gorffen i ddysgu gwersi o'r profiad a rhannu hynny â'r tîm sy'n datblygu'r bartneriaeth trafnidiaeth integredig ranbarthol i lywio'i gynllun busnes a lleihau'r tebygolrwydd y bydd camgymeriadau tebyg yn cael eu gwneud.

159 Mae cymhlethdod rhai partneriaethau statudol a'r byrddau rhaglen cysylltiedig yn peri risg y gallai rhai gweithgareddau gael eu dyblygu neu nad yw cyfrifoldebau'n cael eu dyrannu. Er enghraifft, mae'r Cyngor yn aelod o'r Bwrdd Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc, gyda saith grŵp thema ategol, a'r Bartneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, sydd hefyd â grwpiau thematig ategol. Mae materion yn y grwpiau thematig hyn, megis tlodi, yn aml yn gorgyffwrdd. Mae rhai partneriaid yn aneglur ynghylch pa Fyrddau (neu is-'fyrddau') sy'n arwain, er enghraifft, o ran cynyddu nifer y rhai sy'n cael prydau ysgol am ddim, sydd o fewn cylch gwaith y Grŵp Tlodi Plant a'r Grŵp Byw'n Iach. Yn ogystal, nid yw rolau a chyfrifoldebau bob amser yn glir rhwng partneriaethau ag amcanion tebyg. Er enghraifft, mae un o amcanion y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn ymwneud ag Economi Ffyniannus. Nid yw'n glir i rai partneriaid sut mae'r Bwrdd yn cysylltu'n ffurfiol â'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Rhanbarthol, sydd hefyd yn ceisio cynorthwyo twf economaidd.

## Mae'r Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15

160 Daethom i'r casgliad hwn yn seiliedig ar y canfyddiadau cynharach yn yr adroddiad hwn. Yn arbennig, rydym wedi nodi bod:

- y Cyngor yn cynnal ei record o gynnydd cyson mewn perthynas â'r rhan fwyaf o agweddau ar ei amcanion gwella;
- mae'r Cyngor yn paratoi gwerthusiadau cytbwys, hyddysg o'i berfformiad a'i drefniadau llywodraethu ac mae'n rheoli risgiau'n systematig; ac
- mae'r rhan fwyaf o agweddau ar lywodraethu a rheoli perfformiad ac adnoddau yn ategu cyflawni cyfraniad y Cyngor at wella gwasanaethau er bod yr hinsawdd ariannol lem yn rhwystr sylweddol.

# Atodiadau

## Atodiad 1
## Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru a KPMG ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig yr Archwilydd Cyffredinol yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Gonwy a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

## Y Cyngor

Cyllideb refeniw gros y Cyngor ar gyfer 2013-14 oedd tua £261.7 miliwn. Mae hyn yn cyfateb i tua £2,269 fesul trigolyn. Yn yr un flwyddyn, cynlluniodd y Cyngor hefyd i wario £35.9 miliwn ar eitemau cyfalaf.

Y dreth gyngor band D gyfartalog ar gyfer Conwy yn 2012-13 oedd £885 y flwyddyn, heb gynnwys elfennau'r cyngor cymuned a'r heddlu. Cynyddodd hyn 3.8 y cant i £919 y flwyddyn ar gyfer 2013-14. Mae 71 y cant o dai Conwy ym mandiau A i D y dreth gyngor.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 59 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli'r gymuned ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a'r defnydd a wneir o adnoddau. Mae aelodaeth wleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:

- 19 Annibynnol
- 13 Ceidwadwyr
- 12 Plaid Cymru
- 10 Llafur
- 5 Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

Prif Weithredwr y Cyngor yw Iwan Davies. Mae'n cael ei gynorthwyo gan dri Chyfarwyddwr Strategol: Ken Finch, Andrew Kirkham, a Sasha Davies.

## Gwybodaeth arall

Aelodau'r Cynulliad dros Gonwy yw:

- Janet Finch-Saunders – Aberconwy, y Blaid Geidwadol
- Darren Millar, Gorllewin Clwyd, y Blaid Geidwadol

Aelodau Rhanbarthol y Cynulliad yw:

- Llyr Huws Gruffydd, Plaid Cymru
- Mark Isherwood, Plaid Geidwadol Cymru
- Aled Roberts, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
- Antoinette Sandbach, Plaid Geidwadol Cymru

Yr Aelodau Seneddol dros Gonwy yw:

- Guto Bebb – Aberconwy, y Blaid Geidwadol
- David Jones – Gorllewin Clwyd, y Blaid Geidwadol

I gael rhagor o wybodaeth gweler gwefan y Cyngor yn www.conwy.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor yn Swyddfeydd y Cyngor, Bodlondeb, Heol Bangor, Conwy, LL32 8DU, neu drwy ffonio 01492 574000.

# Atodiad 3
# Llythyr Archwilio Blynyddol

Iwan Davies
Prif Weithredwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Bodlondeb
Conwy
LL32 8DU

Annwyl Iwan

## Llythyr Archwilio Blynyddol

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

### Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau'n ymwneud â chyflwyno adroddiadau ariannol a defnydd o adnoddau

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol;
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 27 Medi 2013 cyflwynais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu yn cadarnhau eu bod yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Cyflwynwyd adroddiad ar y materion allweddol sy'n codi o'r archwiliad cyfrifon i aelodau o'r Pwyllgor Archwilio yn fy adroddiad Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 26 Medi 2013.

- **Nodwyd bod dau gamddatganiad yn y datganiadau ariannol a gywirwyd gan y rheolwyr.** Roedd y cyntaf o ganlyniad i wendid perthnasol yn eich rheolaethau mewnol. Yn ystod yr archwiliad nodwyd bod rhywfaint o ddata aelodaeth y cynllun pensiwn a gyflwynwyd i actiwari'r cynllun wedi dyddio. Rhoddodd y Cyngor ddata wedi'i ddiweddaru i'r actiwari a ddiwygiodd statws tua 600 o aelodau'r cynllun pensiwn. Gwnaeth y gwelliannau hyn leihau gwerth y rhwymedigaeth pensiwn£3.16 miliwn.

  Roedd yr ail gamddatganiad yn gysylltiedig â darpariaethau cyfrifyddu. Yn dilyn argymhellion archwilio a wnaed yn 2011/12, neilltuodd y Cyngor £600,000 fel cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi i gwmpasu ei rwymedigaethau i gynnal a chadw Pier Victoria. Mae gwahaniaeth technegol rhwng cronfa wrth gefn a darpariaeth a fy marn i oedd y dylai'r rhwymedigaethau'n ymwneud â'r Pier fod wedi'u dosbarthu fel darpariaeth yn hytrach na chronfa wrth gefn. Cafodd y cyfrifon eu haddasu yn unol â hynny.

- **Nid oes pryderon gennyf ynglŷn â'r agweddau ansoddol ar eich arferion cyfrifyddu a chyflwyno adroddiadau ariannol.** Roedd y polisïau cyfrifyddu ac amcangyfrifon yn briodol ac roedd y datganiadau ariannol drafft o ansawdd da, yn ddiduedd, yn deg ac yn glir. Roedd y papurau gwaith a ddarparwyd i ategu'r cyfrifon yn glir ac yn hawdd i'w dilyn. Nodais nifer bach o wallau cyflwyniadol yn y datganiadau ariannol drafft. Ni chafodd y rhain unrhyw effaith ar y sefyllfa ariannol sylfaenol y cyflwynir adroddiad arni.

- **Ni wynebais unrhyw anawsterau sylweddol yn ystod yr archwiliad.** Cafwyd gwybodaeth mewn modd amserol a defnyddiol ac ni chawsom ein cyfyngu yn ein gwaith.

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi bod yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Ar y cyfan, rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi tynnu sylw at feysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'u dangos hyd yma neu lle gellid gwneud gwelliannau yn ei Adroddiad Gwella Blynyddol a gyhoeddwyd ym mis Awst 2013.

- Fel gyda phob awdurdod lleol yng Nghymru, mae Conwy'n wynebu heriau sylweddol mewn perthynas â chyllid o'r setliad gan Lywodraeth Cymru. Mae'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2014/15 yn dibynnu ar ddefnyddio tua £4 miliwn o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i ganiatáu mwy o amser i'r Cyngor ddatblygu arbedion sylweddol eraill ar gyfer 2015/16. Gwnaeth y Cyngor hefyd lunio Fframwaith Ariannol Tymor Canolig newydd yn ystod 2013, er nad yw'r ddogfen ar hyn o bryd yn darparu trosiad ariannol o Gynllun Corfforaethol y Cyngor a'i amcanion, ac nid yw'n rhoi disgrifiad clir o'r llwybr i ddod o hyd i'r arbedion angenrheidiol yn 2015/16 ac ar ôl hynny. Mae angen i'r Cyngor ddatblygu cynlluniau manwl ar fyrder oherwydd gallai llawer o'r camau gweithredu trawsnewidiol y gall fod eu hangen gymryd misoedd neu flynyddoedd i'w gweithredu'n effeithiol.
- Roedd y sefyllfa alldro derfynol ar 31 Mawrth 2013 yn unol yn fras â'r gyllideb ddiwygiedig a gymeradwywyd gan y Cabinet, gydag amrywiad cyllideb refeniw net o £85,000 yn unig. Gwelwyd symudiad net bach iawn yn unig ym Malans Cronfa'r Cyngor yn ystod 2012/13, gyda balans diwedd y flwyddyn o ychydig o dan £3 miliwn.
- Yn ystod 2012/13, gwnaeth KPMG waith dilynol ar y cynnydd a wnaed gan y Cyngor o ran gweithredu'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad Contractio a Chaffael. Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da yn erbyn gweithredu'r rhan fwyaf o'r argymhellion, ac rydym yn cydnabod bod llawer o waith wedi'i wneud i sicrhau gwelliannau o ran prosesau contractio a chaffael. Mae hyn wedi cynnwys ad-drefnu sylweddol drwy greu adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau, a ddylai helpu i gysoni polisi ac arfer.

Nid wyf hyd yma mewn sefyllfa i ardystio cau'r archwiliad ar gyfer 2012/13 Mae hyn oherwydd bod archwiliadau 2010/11 a 2011/12 ar agor o hyd oherwydd nifer o wrthwynebiadau heb eu datrys a gafwyd gan aelod o'r cyhoedd. Mae gwrthwynebiadau hefyd wedi'u cael ar gyfer 2012/13 ac rydym wrthi ar hyn o bryd yn gwerthuso'r cwestiynau a godwyd i asesu a ydynt o fewn ein cylch gwaith ar gyfer ymchwilio a sut i'w datrys.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ar gyfer elfen datganiadau ariannol archwiliad 2012/13 fod yn unol â'r ffi y cytunwyd arni a nodwyd yn yr Amlinelliad Archwilio Blynyddol. Bydd ffioedd ychwanegol yn codi o'r angen i ymdrin â nifer mawr o wrthwynebiadau gan aelod o'r cyhoedd.

Yn gywir,

**Ian Pennington, Cyfarwyddwr, KPMG LLP**

Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig, Anthony Barrett, Swyddfa Archwilio Cymru
7 Chwefror 2014

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

## Amcanion gwella'r Cyngor

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Adolygodd y Cyngor ei amcanion gwella ar gyfer 2013-14, yn ôl y gofyn, a phenderfynodd gadw'r rhai a nodir yn ei Gynllun Corfforaethol 2012-2017, y gellir eu gweld ar wefan y Cyngor ar www.conwy.gov.uk.

Dyma amcanion gwella'r Cyngor:

| Amcanion Gwella ar gyfer 2013-14 |
|---|
| Mae pobl yng Nghonwy'n derbyn addysg ac mae ganddynt sgiliau. |
| Mae pobl yng Nghonwy'n ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel. |
| Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn tai diogel ac addas;. |
| Mae pobl yng Nghonwy'n iach ac yn annibynnol. |
| Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn Sir gydag economi ffyniannus. |
| Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn amgylchedd cynaliadwy. |
| Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn Sir lle mae treftadaeth, diwylliant a'r iaith Gymraeg yn ffynnu. |
| Mae pobl yng Nghonwy yn cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais. |

## Hunanasesiad y Cyngor o berfformiad

Gellir gweld hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad yn ystod 2012-13 yn Adroddiad Blynyddol 2012-13, ar gael ar wefan y Cyngor ar www.conwy.gov.uk.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk